



Cynulliad Cenedlaethol
Cymru
National Assembly for
Wales

Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Materion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru,
eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw a gweithio ynddynt

Tachwedd 2008

Mae crynodeb o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill os gofynnir amdanynt a gellir cael copïau pellach o'r adroddiad gan:

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149

E-bost: Linda.heard@wales.gsi.gov.uk

Ceir copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Pwyllgor:
www.cynulliadcymru.org

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Tom Jackson – Clerc Pwyllgor
Rita Phillips – Dirprwy Glerc Pwyllgor
Linda Heard – Swyddog Cymorth y Pwyllgor

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Denise Rogers – Arbenigwr y Pwyllgor

Gwasanaeth Cyfreithiol yr Aelodau
Helen Roberts – Cynghorydd Cyfreithiol

Mae'r holl ddogfennau ar gael yn y fformatau eraill canlynol os gofynnir amdanynt:

- Braille
- Tâp Awdio/CD
- Print Bras
- Fformatau electronaidd - disc /CD-ROM / e-bost
- Saesneg Rhwydd ei Ddarllen a Chymraeg Rhwydd ei Ddarllen

Gellir cynhyrchu crynodeb o'r adroddiad mewn ieithoedd eraill os oes cais.

Aelodaeth y Pwyllgor

Cyflwyniad y Cadeirydd 1

Cyflwyniad a Chefndir 2

Materion Allweddol ac Argymhellion: 5

- Gwella mynediad at wybodaeth i weithwyr mudol a'u teuluoedd 6

- Gwella mynediad at ddosbarthiadau iaith 11

- Gwella amodau ar gyfer gweithwyr mudol a'u teuluoedd 14

- Hybu perthnasoedd da rhwng gweithwyr mudol a'u teuluoedd, a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt 25

- Cymorth i sefydliadau a staff sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr mudol a'u teuluoedd 28

Atodiad 1 Crynodeb o Argymhellion 33

Atodiad 2 Cylch Gorchwyl 37
Tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd

AELODAETH Y PWYLLGOR



Ann Jones AC (Cadeirydd)
Llafur
Dyffryn Clwyd



Eleanor Burnham AC
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Bethan Jenkins AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Nick Ramsay AC
Plaid Geidwadol Cymru
Sir Fynwy



Joyce Watson AC
Llafur
Canolbarth a Gorllewin Cymru

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD



Penderfynodd Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn gynnar yn y Trydydd Cynulliad hwn eu bod am ymgymryd ag ymchwiliad craffu i ganolbwyntio ar weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Yn ystod yr ymchwiliad, gwnaethom dderbyn swm aruthrol o dystiolaeth, ac roedd y cymorth a gynigir i weithwyr mudol i'w helpu i integreiddio i'r gymuned a'r gweithle yn galonogol i mi. Roedd yn siom i mi ddysgu am gamfanteisio ymhlith y gweithlu gwerthfawr hwn, yn aml oherwydd nad yw pobl yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau, sef mater y mae rhwystrau ieithyddol yn ei waethgu. Rwy'n wir obeithio y derbynnir ein hargymhellion, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â hyfforddiant yr iaith Saesneg, i helpu i oresgyn rhwystrau o'r fath.

Rwy'n pryderu ynghylch nifer y mythau sydd ar led ynglŷn â gweithwyr mudol, sy'n annog gwahaniaethu ac aflonyddu. Yn groes i benawdau ffrwydrol bod 'mewnudwyr yn achosi mwy o droseddu', mae dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn yn awgrymu nad yw gweithwyr mudol yn fwy tebygol o fod yn droseddwr, neu'n ddioddefwr troseddau, na dinasyddion eraill y DU. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth yn dangos nad oedd gweithwyr mudol mewn gwirionedd yn cymryd 'swyddi pobl eraill'; yn hytrach, roedd llawer ohonynt yn cymryd gwaith sgiliau isel ar gyflog isel lle roedd llafur yn brin. Barn yr Aelodau oedd bod gweithwyr mudol yng Nghymru'n creu busnes newydd ac yn rhoi hwb i'n heconomi. Mae gan Gymru hanes hir o ymfudiad ac amrywiaeth, a dylem ddathlu hyn. Gall adrodd straeon mewn modd cyfrifol yn y cyfryngau ynglŷn â gweithwyr mudol chwarae rhan hanfodol mewn chwalu llawer o'r mythau sydd ar led ynghylch gweithwyr mudol.

Roedd felly'n galonogol i mi ddysgu am y gwaith rhagorol mae rhai awdurdodau lleol, lle ceir cymunedau mawr o weithwyr mudol, yn ei wneud i gynhyrchu taflenni sy'n chwalu'r mythau. Byddwn yn annog awdurdodau lleol eraill sydd â phoblogaeth fudol i ystyried cynhyrchu taflenni tebyg.

Rwy'n ddiolchgar i'r rheiny a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ac a'n helpodd â'n trafodion. Yn ystod cyfnod yr ymchwiliad hwn, cafwyd nifer o newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor, a hoffwn ddiolch i Angela Burns, Christine Chapman, Chris Franks, Helen Mary Jones, Huw Lewis, Lynne Neagle a Mark Isherwood am eu cyfraniadau at yr adroddiad hwn.

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac wedi rhestru enghreifftiau o arfer da a fydd, rwy'n gobeithio, yn sicrhau cyfle cyfartal i weithwyr mudol, eu teuluoedd, y sefydliadau a'r staff y maent yn dod i gysylltiad â nhw, a phobl eraill yn y cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt.

Ann Jones
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1. Mae poblogaeth Cymru wedi newid ei gwedd yn rheolaidd dros yr oesoedd, gydag ymfudiad yn ffenomen hynafol. Dros 100 mlynedd yn ôl, fe ymfudodd niferoedd sylweddol o weithwyr o Loegr, Iwerddon, yr Eidal a Sbaen i ateb y galw am lafur ym meysydd glo De Cymru. Heddiw, mae Caerdydd yn ymfalchïo mewn poblogaeth â chymysgedd wirioneddol gosmopolitaidd o ddiwylliannau a chenhedloedd, gan gynnwys cymunedau Somaliïaidd, Bengalaidd, Affro-Caribïaidd a Yemenïaidd, ymhlith eraill. Ledled y wlad, mae mewnlf pobol o wledydd fel Tsieina, India a Phacistan wedi helpu i ailddiffinio ystyr bod yn Gymry, ac wedi cyfoethogi diwylliant ac economi Cymru.

2. Yng Nghymru a'r DU, mae'r term 'gweithiwr mudol' wedi'i ddefnyddio fwyfwy i gyfeirio'n benodol at ddinasyddion Dwyrain Ewrop. Mae hyn yn sgil y cynnydd yn nifer y gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd er 2004. Ers hynny, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobol o wledydd Dwyrain Ewrop yn dod i Gymru i fyw ac i weithio. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y term gweithiwr mudol mewn gwirionedd yn cyfeirio at boblogaeth amrywiol sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd a chenhedloedd gwahanol ac, yn ôl cyfraith mewnfudo'r DU, sydd â gwahanol hawliau. Yn wir, er nad yw union niferoedd y gweithwyr mudol yng Nghymru'n hysbys, mae'n debygol mai'r rhai a aned yng Ngweriniaeth Iwerddon yw'r garfan fwyaf o bobol a aned y tu allan i'r DU ac sydd nawr yn byw yng Nghymru.

3. Cydnabyddir yn eang nad oes unrhyw un ffynhonnell ddata sy'n darparu llun cynhwysfawr a manwl gywir o ymfudiad yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darganfod bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweld ymfudiad economaidd pobol o wledydd A8 ac A2¹ i ryw raddau. Bu'r ymfudiad economaidd ar raddfa gymharol fach mewn rhai ardaloedd, gyda'r effaith leiaf ar ddarpariaeth gwasanaethau, tra bu newid demograffig sylweddol ar lefel leol mewn eraill. Mae'n bosibl bod nifer y gweithwyr mudol o rai gwledydd ar drai yn y DU, gyda Mr Trepczynski, Gweinidog Gynghorydd Llysgenhadaeth Gwlad Pwyl yn Llundain, yn gwneud sylw yn sgil amodau economaidd newidiol yn y DU a Gwlad Pwyl:

"Yr hyn y gallwn ni ei ddisgwyl yn achos Gwlad Pwyl yw y bydd lleihad araf yn nifer y Pwyliaid yn y DU... i'r rheiny sy'n ennill llai nag £8 yr awr, nid yw'n economaidd hyfyw yn ymarferol bod yn y DU mwyach".

4. Fodd bynnag, rhagwelir yn eang y bydd nifer y gweithwyr mudol yn y DU yn cynyddu yn y dyfodol, o ystyried y potensial i wledydd eraill ymuno â'r UE.

¹ Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia yw aelod-wladwriaethau 'A8' yr Undeb Ewropeaidd. Daeth y gwladwriaethau hyn i'r UE ym mis Mai 2004. Bwlgaria a Rwmania yw aelod-wladwriaethau 'A2' yr UE. Daeth y gwladwriaethau hyn i'r UE ym mis Ionawr 2007.

Cylch Gorchwyl

5. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 27 Medi 2007, fe gytunodd i gynnal ymchwiliad craffu, gan ganolbwyntio ar brofiadau gweithwyr mudol yng Nghymru. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Hydref 2007, sef:

- craffu ar Lywodraeth y Cynulliad a'r gwaith mae'n ei wneud i gefnogi gweithwyr mudol a'u teuluoedd, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol sydd â chyfran uchel o bobl fudol yn rhan o'u poblogaeth; a,
- gwneud argymhellion ar y gweithredu sydd ei angen i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r bobl sy'n byw yn y cymunedau y maent hwy'n byw ac yn gweithio ynddynt.

6. Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n:

- edrych ar brofiadau gweithwyr mudol a'u teuluoedd yng Nghymru gan edrych yn benodol ar: amodau byw a gweithio; mynediad at wasanaethau cyhoeddus; a rhwydweithio cymdeithasol;
- adnabod effaith mudo economaidd ar rai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ac ar gymunedau lleol;
- ymchwilio i effaith y fframwaith rheoli presennol sy'n llywodraethu amodau byw a gweithio gweithwyr mudol yng Nghymru; a,
- thynnu sylw at esiamplau o arferion da gyda golwg ar gysylltiadau â chymunedau; polisïau cyflogaeth a darparu gwasanaethau.

Diffiniad o Weithiwr Mudol

7. Yn ystod yr ymchwiliad, nododd Aelodau nad oedd un diffiniad unigol o weithiwr mudol. Mae rhai diffiniadau wedi cynnwys meini prawf sy'n ymwneud â'r cyfnod o amser mae rhywun yn bwriadu aros yn y DU, a ph'un a ganiateir iddynt aros yn y DU.

8. Glynodd yr Aelodau at y diffiniad o weithiwr mudol a geir yn y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Hawliau'r Holl Weithwyr Mudol ac Aelodau o'u Teuluoedd, erthygl 2.1, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd dros Hawliau Dynol (1990). Dyma gyfieithiad o'i ddiffiniad o weithiwr mudol:

"rhywun y bwriedir ei gyflogi, a gyflogir neu a gyflogwyd mewn gweithgaredd am dâl mewn gwladwriaeth lle nad yw ef neu hi yn ddinesydd".
--

9. Nododd Aelodau nad yw'r diffiniad hwn felly'n cynnwys ceiswyr lloches, na phobl y mae eu cais am loches wedi'i wrthod, ond ei fod yn cynnwys yr holl bobl oedd wedi dod i'r DU i geisio gwaith, o unrhyw wlad, ac am unrhyw gyfnod o amser.

10. Nodwyd hefyd nad yw'r diffiniad hwn yn gwahaniaethu rhwng gweithwyr mudol o wledydd yr Undeb Ewropeaidd a'r rheiny o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, er bod pobl o'r fath yn destun gweithdrefnau gwahanol wrth geisio cyflogaeth yn y DU.

Casglu Tystiolaeth

11. Yn ystod eu hymchwiliad, cymerodd Aelodau'r Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth ystod o dystion, gan adlewyrchu barn a safbwyntiau amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, asiantaethau ar y rheng flaen, cynrychiolwyr llywodraeth leol, undebau llafur, awdurdodau gorfodi'r gyfraith, cynrychiolwyr llysgenadaethau, grwpiau ffydd, a mudiadau gwirfoddol.

12. Derbyniwyd tystiolaeth mewn nifer o ffyrdd. Derbyniodd y Pwyllgor 30 o ymatebion i'w alwad am dystiolaeth ysgrifenedig, a gyhoeddwyd ar 12 Hydref 2007. Manylir ar restr o ymatebwyr yn Atodiad 2, ynghyd ag atodlen o'r dystiolaeth lafar a gymerodd y Pwyllgor dros chwe Chyfarfod y Pwyllgor. Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â'r Ganolfan Cyngor ac Eiriolaeth i Weithwyr Mudol ym Mharc Caia, Wrecsam.

13. Gellir gweld papurau'r Pwyllgor, trawsgrifiadau cyfarfodydd ac ymatebion yr ymgynghoriad ar dudalen gwe'r Pwyllgor ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eoc-home.htm>. Defnyddir dyfyniadau oddi wrth rai cyfranogwyr yn yr adroddiad hwn i ddarlunio materion penodol.

14. Gydol ei ymchwiliad, ceisiodd y Pwyllgor alluogi cyfleoedd i gymryd tystiolaeth yn uniongyrchol oddi wrth weithwyr mudol, gan siarad â gweithwyr mudol gwirfoddol ym Mharc Caia er enghraifft, a chyfarfod â chynrychiolwyr llysgenadaethau. Nododd Aelodau'r Pwyllgor mor werthfawr oedd y cyfarfodydd hyn, a gwnaethant bwysleisio y byddai'n arbennig o werth chweil i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud pob ymdrech i ymgysylltu â gweithwyr mudol wrth ymgynghori ar bolisïau a allai effeithio arnynt. Fodd bynnag, cydnabu Aelodau'r Pwyllgor hefyd mai cymharol gyfyngedig oedd eu hymgysylltiad â gweithwyr mudol, fel yn achos nifer o ymchwiliadau eraill yn ymwneud â gweithwyr mudol².

Y Cyd-destun Deddfwriaethol

15. Mae materion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yn berthnasol i lawer o bolisïau a phortffolios y Llywodraeth.

16. Mae cyfrifoldebau sydd, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'u datganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel addysg, iechyd, tai, a rhai pwerau a dyletswyddau penodol awdurdodau lleol, yn effeithio ar weithwyr mudol.

17. Mae materion nad ydynt wedi'u datganoli, ac y mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt, fel mewnfudo a'r system cyfiawnder troseddol, hefyd yn effeithio ar weithwyr mudol.

² Er enghraifft, 3 gweithiwr mudol yn unig a gyfwelwyd mewn *Astudiaeth yr ymgymerydd â hi gan Sefydliad Bevan ar ran TUC Cymru, Cyfreithwyr Thompsons, Unite, Unsain a GMB*, Sefydliad Bevan, mis Hydref 2007. Yn yr un modd, 1 gweithiwr yn unig y llwyddwyd i'w gyfweld mewn *Astudiaeth o anghenion busnes cyflogwyr gweithwyr mudol yn y Diwydiannau Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Gynhyrchu yng Nghymru*, Lantra, mis Mehefin 2007.

MATERION ALLWEDDOL AC ARGYMHELLION

Themâu Sy'n Dod i'r Amlwg

18. Roedd tystion yn gyffredinol gytûn ynglŷn â llawer o'r materion allweddol sy'n effeithio ar weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, er bod yr atebion a gynigwyd i'r heriau hyn yn amrywio.

19. Dyma'r pum thema allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad:

- gwella mynediad at wybodaeth i weithwyr mudol a'u teuluoedd
- gwella mynediad at ddosbarthiadau iaith
- gwella amodau ar gyfer gweithwyr mudol a'u teuluoedd
- hybu perthnasoedd da rhwng gweithwyr mudol a'u teuluoedd, a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt; a
- chymorth i sefydliadau a staff sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr mudol a'u teuluoedd.

20. Manylir ar ystyriaeth Aelodau o'r themâu hyn isod. Yn sgil trafodion yr Aelodau ynglŷn â'r themâu hyn, gwnaed 25 argymhelliad y ceir crynodeb ohonynt yn Atodiad 1.

21. Nododd Aelodau mai nod pob un o argymhellion y Pwyllgor yn y pen draw fyddai sicrhau gwell profiad i weithwyr mudol, eu teuluoedd, y sefydliadau a staff y maent yn dod i gysylltiad â nhw, a'r bobl sy'n byw yn y cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt.

Thema 1: Gwella Mynediad at Wybodaeth i Weithwyr Mudol a'u Teuluoedd

Hawliau a Chyfrifoldebau

22. Awgrymodd tystiolaeth a gymerwyd yn yr ymchwiliad hwn yn gryf bod llawer o broblemau'n codi – yn enwedig o ran cyflogaeth, tai a mynediad at wasanaethau cyhoeddus – oherwydd nad yw gweithwyr mudol yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Gall hyn wneud gweithwyr yn agored i bobl gamfanteisio arnynt, achosi iddynt beidio â manteisio ar wasanaethau sydd ar gael iddynt, a manteisio ar wasanaethau mewn modd amhriodol. Gwnaeth y Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon sylw nad oedd gweithwyr mudol, yn aml, yn gwybod pa hawliau, budd-daliadau neu wasanaethau sydd ar gael iddynt. Nododd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) mai cyfyngedig oedd gwybodaeth gweithwyr am fudd-daliadau i gynorthwyo â rhywle i fyw.

23. Nododd tystion y gallai diffyg gwybodaeth, yn enwedig, adael gweithwyr mudol yn agored i landlordiaid a chyflogwyr digydwybod gamfanteisio arnynt. Gwnaeth Mr Payne, Is-gennad Anrhydeddus Cynrychiolaeth y Weriniaeth Slofacaid yng Nghymru, y sylw ei fod yn ymwybodol o achosion lle:

“Roedd dinasyddion Slofacia'n teimlo'u bod yn cael eu gormesu a'u trin yn annheg oherwydd nad oeddent yn gwybod beth oedd eu hawliau”.

24. Manylir ar enghreifftiau penodol o gamfanteisio a thriniaeth annheg y mae gweithwyr mudol yn dioddef ohonynt yn 'Thema 3: Gwella amodau ar gyfer gweithwyr mudol a'u teuluoedd'.

25. Nododd tystion hefyd y gallai diffyg gwybodaeth gweithwyr mudol hefyd greu problemau ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer poblogaethau mudol. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir y Fflint y problemau a oedd yn dod i ran awdurdodau addysg wrth reoli integreiddio:

“plant...sy'n cyrraedd heb unrhyw wybodaeth gefndir, lefelau cyrhaeddiad addysgol, anawsterau dysgu, ac ati”.

26. Manylir ar enghreifftiau penodol o ddiffyg gwybodaeth gweithwyr yn gwaethygu'r pwysau ar wasanaethau lleol yn 'Thema 5: Cymorth i sefydliadau a staff sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr mudol a'u teuluoedd'.

27. Yn anffodus, nododd tystion mai prin oedd y dystiolaeth o weithwyr mudol yn ymchwilio i'w gwledydd croesawu newydd cyn cyrraedd y DU. Gwnaeth Mr Payne, Is-gennad Anrhydeddus Cynrychiolaeth y Weriniaeth Slofacaid yng Nghymru, y sylw:

“mae pobl fudol yn rhannol gyfrifol am y sefyllfa yma. Maen nhw'n aml yn dod i'r DU â chyllideb gyfyngedig iawn, heb baratoi o gwbl ac yn naif iawn”.

28. Yn yr un modd, gwnaeth Cyngor Sir Caerffili y sylw:

“byddech chi wedi gobeithio y byddai'r ymgeisydd wedi ymchwilio i gyflogaeth yn y DU o leiaf... nid yw'r mwyafrif yn mynd ati'n rhagweithiol i wneud hyn”.

29. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oedd unrhyw un ffynhonnell wybodaeth y gallai gweithwyr mudol gyfeirio ati i ddysgu am eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn y DU, hyd yn oed petaent yn ceisio gwneud ymchwil o'r fath. Gwnaeth Cyngor Sir y Fflint sylw nad oedd gwybodaeth am wasanaethau'r sector cyhoeddus wedi'i lleoli mewn un lle i'r cyhoedd ei chyrchu. Yn wir, gwnaeth gweithwyr ym Mharc Caia'r sylw mai un o'u rolau allweddol oedd bod yn arwyddbost yn y gymuned, gan gyfeirio gweithwyr at ffynonellau gwybodaeth.

30. Nododd Aelodau fod ystod eang o fentrau, gwasanaethau a gwefannau eisoes yn bodoli sy'n darparu gwybodaeth am faterion penodol. Ymhlith eraill, roedd y rhain yn cynnwys:

- Arweiniad rhad ac am ddim Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch *'Working in the UK from overseas? Your health and safety at work in agriculture and food processing'*.
- Gwefan www.employingmigrantworkers.org.uk y mae'r Swyddfa Gartref, y Ffederasiwn Gwasanaethau Recriwtio a Chyflogi, y Sefydliad Gwaith, a'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn ei chefnogi, ac sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr gweithwyr mudol.
- Llinell gymorth *'gwybod eich hawliau'*, a'r daflen rad ac am ddim *'Working in the UK: Your Rights at Work'*, a ddarperir gan Gyngres yr Undebau Llafur.
- www.migrantgateway.eu/ - gwefan amlieithog sy'n darparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer dinasyddion yr UE a thu hwnt sydd eisoes yn gweithio ac yn byw yn y Deyrnas Unedig (y DU), neu a fyddai'n hoffi dod i weithio a byw yma.

31. Nododd Aelodau hefyd fod llawer o dystion wedi dosbarthu pecynnau croeso'n effeithiol i weithwyr mudol. Roedd y pecynnau hyn yn cynnwys gwybodaeth leol am gyrchu gwasanaethau fel gofal iechyd ac addysg, ynghyd â gwybodaeth am hawliau cyflogaeth a thai. Roeddent wedi'u cyfieithu i ieithoedd allweddol mae gweithwyr mudol yn eu siarad. Gwnaeth yr Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (USDAW) sylw mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor bod gwybodaeth yn ieithoedd gweithwyr mudol eu hunain ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn gam cyntaf arwyddocaol i alluogi eu hawliau. Dywedodd gweithwyr ym Mharc Caia fod pecynnau o'r fath yn llawer mwy tebygol o gael eu gwerthfawrogi, ac y bydd pobl yn ymddiried ynddynt yn fwy, pan fydd pobl y mae eu cynulleidfarn ymddiried ynddynt yn eu dosbarthu. Nododd Aelodau hefyd y gallai trefniadau gwaith, cludiant a llety rhai gweithwyr eu hynysu rhag derbyn gwybodaeth.

32. Roedd Aelodau o'r farn bod pecynnau croeso i weithwyr mudol yn adnodd gwerthfawr ac y dylid annog awdurdodau lleol i'w datblygu. Nododd Aelodau fod pecynnau o'r fath yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar wasanaethau lleol a gwybodaeth leol. Nododd Aelodau adborth positif oddi wrth rai tystion ynglŷn â 'Phecyn Croeso i Gymru i Weithwyr Mudol' Llywodraeth Cynulliad Cymru, er nad oedd yn ymddangos bod pob tyst yn ymwybodol ohono. Nododd Aelodau fod y pecyn hwn yn gryno, gan ddarparu 'Deg peth pwysig y mae'n rhaid i chi ei wybod' i weithwyr mudol, a'i fod ar gael ar-lein yn:

<http://new.wales.gov.uk/dsjlg/publications/immigration/welcomepacktopten/toptene.pdf?lang=cy>.

33. Fodd bynnag, roedd Aelodau o'r farn bod angen cyfeirio gweithwyr mudol yn fwy effeithiol at ffynonellau gwybodaeth manylach yn ieithoedd Gweithwyr Mudol eu hunain – yn enwedig pecynnau croeso lleol. Nododd Aelodau dystiolaeth oddi wrth Gyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd mai:

“Y peth ynglŷn â phecynnau croeso yw eich bod chi'n darparu gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd yn disgrifio'r gwasanaethau a'r hyn maen nhw'n ei ddarparu; ond pan rydych chi'n ceisio'i gyrchu, ni allwch chi. Efallai eich bod chi'n gwybod bod y gwasanaeth yn bodoli, ond mae'n amhosib ei gyrchu”.

34. Roedd Aelodau o'r farn y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu mewn modd tebyg i'r rôl mae gweithwyr yng Nghanolfan Cyngor ac Eiriolaeth Parc Caia yn ei chyflawni, trwy ddarparu dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill yn hytrach na darparu gwybodaeth yn uniongyrchol. Nododd Aelodau y byddai angen diweddarau gwasanaeth cyfeirio o'r fath yn gyson â dolenni i'r cyngor diweddaraf a mwyaf perthnasol sydd ar gael. Nododd Aelodau y manylwyd ar Brosiect Mynediad Cyhoeddus Heb Rwystrau (PAWB) yn Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf fel astudiaeth achos mewn tystiolaeth oddi wrth Gyngor Sir Rhondda Cynon Taf. Datblygwyd y prosiect hwn yn wreiddiol i ddarparu gwybodaeth i gymunedau mudol ar gyrchu gwasanaethau llyfrgell. Nododd Aelodau fod y wefan hon wedi datblygu'n sylweddol y tu hwnt i'w briff gwreiddiol, a'i bod bellach yn darparu dolenni i wasanaethau sydd o ddiddordeb i weithwyr mudol a'u teuluoedd. Bu angen perthynas weithio agos ag amrywiaeth eang o gyrff statudol wrth ddatblygu'r wefan hon. Roedd Aelodau o'r farn bod prosiect PAWB yn gynnig model ar gyfer gwasanaeth cyfeirio mwy Cymru-Gyfan i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei ddatblygu, gyda dolenni i amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth, fel pecynnau croeso lleol, gwefannau asiantaethau gorfodi, gwybodaeth am hawliau cyflogaeth a thai, bancio, ac ati. Nododd Aelodau hefyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sefyllfa effeithiol i godi ymwybyddiaeth o'i 'both wybodaeth' ei hun ymhlith rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol ledled Cymru.

Argymhellodd y Pwyllgor:

- 1. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu gwefan amlieithog a ddiweddarir yn rheolaidd â dolenni i gyngor sydd ar gael trwy wefannau cyrff perthnasol y sector cyhoeddus, cyrff rheoleiddio a chyrff y llywodraeth. Byddai hon hefyd yn darparu dolen i ffynonellau gwybodaeth ddibynadwy a ddarperir mewn ieithoedd mae gweithwyr mudol yn eu siarad. Pwrpas y wefan hon fyddai cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau gwybodaeth gyffredinol a gwybodaeth â ffocws lleol yn hytrach na darparu'r wybodaeth yn uniongyrchol, gan weithredu fel 'both wybodaeth'.**
- 2. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu'r 'both wybodaeth' hon trwy: lywodraethau a swyddfeydd is-genhadon gwledydd tarddiad gweithwyr mudol yng Nghymru; pwyntiau mynediad i Gymru; sefydliadau'r sector cyhoeddus; cymdeithasau a busnesau gweithwyr mudol; a phecyn 'Croeso i Gymru' wedi'i ddiweddarau.**

3. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu eu pecynnau croeso eu hunain, y gellid creu dolen rhyngddynt a gwefan amlieithog Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r pecynnau croeso hyn gynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a gwybodaeth berthnasol arall fel bancio.

Defnyddio Cymwysterau

35. Nododd nifer sylweddol o dystion nad oedd llawer o weithwyr mudol yn defnyddio sgiliau neu gymwysterau roeddent wedi'u hennill yn eu gwledydd cartref. Nododd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru (SEWREC) nad oedd graddau llawer o weithwyr mudol wedi'u cydnabod, a bod hyn yn golygu eu bod, yn y pen draw, yn gwneud swyddi di-grefft. Yn yr un modd, gwnaeth Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru sylw nad oedd cyflogwyr yn cydnabod cymwysterau, a nododd Cyngor Sir Caerfyrddin, er bod llawer o weithwyr mudol yn gwneud gwaith sylfaenol, roeddent yn aml yn grefftus ac yn dra chymwysedig. Mynegodd rhai tystion bryder hefyd bod camfanteisio ar rai gweithwyr mudol trwy gyflogwyr yn gofyn iddynt yn answyddogol i wneud gwaith mwy crefftus, er eu bod yn cael eu talu'n swyddogol i wneud gwaith sylfaenol.

36. Nododd Aelodau'r Pwyllgor hefyd sylwadau oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau bod angen i gyflogwyr fod yn hyderus eu bod yn deall ystyr cymwysterau tramor. Cydnabu Aelodau y gallai fod yn ofynnol mewn gwahanol wledydd i bobl fynd trwy hyfforddiant, addysg a phrofiad o hyd gwahanol cyn dyfarnu cymwysterau. Nododd Aelodau hefyd y byddai cyflogwyr yn cydnabod y byddai sgiliau ieithyddol yn ffactor allweddol o ran galluogi rhywun i ddefnyddio cymwysterau i wneud gwaith crefftus, gan nodi y byddai gofyn am gyfathrebu â thîm neu gwsmeriaid i raddau sylweddol wrth wneud gwaith crefftus fel rheol.

37. Nododd y Pwyllgor fod tri fframwaith cymwysterau ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd: y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC), y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FfCAU) a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae'r fframweithiau hyn yn diffinio 'lefelau' dysgu a chymwysterau cyfatebol. Er enghraifft, mae gan y FfCC naw lefel, gan grwpio cymwysterau sy'n gosod galwadau tebyg ar ddysgwr gyda'i gilydd, er y gall un lefel gwmpasu cymysgedd eang o bynciau a allai o bosibl fod wedi cymryd cyfnodau gwahanol o amser i'w cwblhau. Mae'r FfCC yn cwmpasu pob lefel o ddysgu mewn addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch alwedigaethol, tra bo'r FfCAU yn cynnwys disgrifiadau o'r brif gymwysterau addysg uwch, sy'n berthnasol i raddau, diplomâu, tystysgrifau a dyfarniadau academaidd eraill. Mae'r FfCChC yn hybu dysgu gydol oes, gan gynnig cydraddoldeb wrth gydnabod cyflawniadau yn y gweithle, yr ysgol, y coleg a'r brifysgol.

38. Nododd Aelodau hefyd fod y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau wedi mynegi mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ei fod yn hyderus bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud popeth gofynnol tuag at alluogi rhoi'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd ar waith yn 2010. Nododd Aelodau hefyd y gallai Canolfan Gwybodaeth Cydnabyddiaeth Genedlaethol y DU (UK

NARIC) ddarparu gwybodaeth a barn arbenigol ar sgiliau a chymwysterau galwedigaethol, proffesiynol ac academiaidd. Mae'r Asiantaeth Genedlaethol, a reolir ar ran Llywodraeth y DU, yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth a barn arbenigol ar gymwysterau rhwngwladol.

39. Fodd bynnag, roedd Aelodau o'r farn bod tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn awgrymu mai isel oedd yr ymwybyddiaeth o'r fframweithiau a'r cynlluniau achredu presennol hyn ymhlith cyflogwyr, gweithwyr mudol a sefydliadau sy'n eu cefnogi. Nododd Aelodau hefyd ganfyddiad ymhlith tystion bod cynlluniau sy'n bodoli'n ddrud. Gwnaeth Cyngor Sir Wrecsam sylw hefyd nad oedd darpar gyflogwyr yn deall mecanwaith cymwysterau cyfatebol NARIC. Nododd Aelodau dystiolaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau y gallai sefydliadau danysgrifio i gronfeydd data UK NARIC ar gost o rhwng £850 a £4500 a TAW y flwyddyn, ac y gallai unigolion sicrhau Llythyr Cymharedd ar gost o £40 a TAW. Nododd Aelodau, ar ôl i'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau fynychu'r Pwyllgor, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trafod y posibilrwydd ag UK NARIC o alluogi cyflogwyr bach i ddefnyddio'r gronfa ddata am bris gostyngol.

Argymhellodd y Pwyllgor:

- 4. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu dealltwriaeth o wybodaeth sy'n bodoli am gymwysterau cyfatebol, ac yn hybu mynediad ati, yn enwedig ymhlith gwasanaethau cynghori, grwpiau gwirfoddol, cyflogwyr a sefydliadau perthnasol eraill.**
- 5. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sefydlu fforwm, gan gynnwys Sefydliadau Addysg Uwch, Colegau Addysg Bellach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a rhanddeiliaid busnes sydd â diddordeb, i benderfynu ar ffyrdd y gall gweithwyr mudol ddefnyddio'u cymwysterau'n fwy effeithiol.**
- 6. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i drafod ag UK NARIC â'r bwriad o alluogi cyflogwyr llai i ddefnyddio cronfa ddata UK NARIC am bris gostyngol, o bosibl trwy system ar y cyd.**

Thema 2: Gwella Mynediad at Ddosbarthiadau Iaith

40. Roedd tystion yn gytûn fod sgiliau Saesneg gwael yn rhwystr sylfaenol i weithwyr mudol ddysgu am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a'u mynnu, a'u bod yn brif ffactor o ran eu gwneud yn agored i bobl gamfanteisio arnynt. Yn wir, awgrymodd llawer mai darpariaeth yr iaith Saesneg oedd 'y' mater allweddol i weithwyr mudol. Cododd tystion bryderon y gallai sgiliau Saesneg gwael olygu:

- nad yw gweithwyr mudol yn gallu deall telerau ac amodau contractau cyflogaeth a chytundebau tenantiaeth;
- bod gweithwyr mudol yn agored i gyflogwyr a landlordiaid digydwbybod gamfanteisio arnynt;
- nad yw gweithwyr mudol yn gallu sicrhau cyflogaeth amgen;
- bod gweithwyr mudol yn agored i risg iechyd a diogelwch yn y gweithle; a
- bod gweithwyr mudol yn ei chael yn anodd cyrchu gwasanaethau cyhoeddus.

41. Mewn tystiolaeth lafar, roedd USDAW o'r farn bod darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill Cymru yn dda o'i chymharu â darpariaeth Lloegr, gan wneud sylw bod darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill, yn y pen draw, yn debygol o fod yn well yng Nghymru. Er hynny, roedd tystion yn gytûn bod angen darparu mwy o raglenni Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill, ac roedd llawer yn pryderu ynghylch rhestrau aros hir. Dygodd Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd a Chyngor Sir Wrecsam yn enwedig sylw at angen cynyddol am ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill, tra argymhellodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) hybu gwersi sydd ar gael yn well. Yn yr un modd, argymhellodd Heddlu Gogledd Cymru fod awdurdodau:

“yn cynyddu nifer y dosbarthiadau Saesneg sydd ar gael, gyda threfniadau astudio mewn dosbarthiadau sy'n hyblyg o ran bywyd a gwaith”.

42. Gwnaeth nifer o dystion sylw ynglŷn â'r angen hwn i alluogi amseroedd dosbarthiadau Saesneg i fod yn hyblyg, gan bryderu bod yn rhaid i weithwyr ddod o hyd i amser ar eu cyfer tra'u bod yn gweithio patrymau sifftiau hir ac afreolaidd weithiau. Awgrymodd Cyngor Sir y Fflint nad oedd dosbarthiadau wythnosol yn ddigonol, ac nad oedd unigolion yn gallu eu mynychu'n rheolaidd oherwydd bod eu patrymau sifftiau'n cael eu cylchdroi. Nododd un tyst hefyd y gallai bod gofyn am ddulliau addysgu hyblyg, a nododd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru y gallai anllythrennedd ymhlith pobl Romani ethnig wneud iddynt deimlo gormod o gywilydd i fynychu dosbarthiadau.

43. Roedd Aelodau o'r farn bod addysgu Saesneg i newydd-ddyfodiaid sy'n gweithio yng Nghymru'n hanfodol i'w hintegreiddiad cymdeithasol ac economaidd llwyddiannus, a byddai budd i Gymru gyfan yn sgil hyn. Nododd Aelodau fod hyfforddiant yr iaith Saesneg yn cael ei gyflwyno trwy Sefydliadau Addysg Bellach (SABau), trwy ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) a thrwy wasanaethau Dysgu i Oedolion a'r Gymuned awdurdodau lleol. Roedd Aelodau'n pryderu y byddai gofyn i SABau gwtogi ar ddarpariaeth gwasanaethau eraill pe byddai darpariaeth hyfforddiant yr iaith Saesneg yn

cael ei gynyddu heb unrhyw adnoddau ychwanegol. Roedd Aelodau o'r farn y byddai hyfforddiant yr iaith Gymraeg hefyd yn werthfawr i weithwyr mudol, er na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gan dystion i awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i hyn.

44. Nododd Aelodau y gallai gwirfoddolwyr o bosibl ddarparu cymorth gwerthfawr i athrawon sydd â chymwysterau proffesiynol i addysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Nododd Aelodau sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru bod Gorsaf Heddlu y Fflint yn darparu ystafelloedd i hwyluso gwirfoddolwyr i addysgu'r iaith Saesneg. Yn yr un modd, nododd Esgobaeth Wrecsam fod lawer o blwyfolion Saesneg eu hiaith yn rhoi gwersi Saesneg bob wythnos i blwyfolion o Wlad Pwyl.

45. Bu Aelodau hefyd yn ystyried cynlluniau arloesol gan rai awdurdodau lleol i alluogi dysgu iaith y tu allan i ystafelloedd dosbarth ffurfiol. Er enghraifft, roedd Prifysgol Abertawe'n darparu:

“chwaraewr MP3 rhad ac am ddim i bob dysgwr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn Abertawe, er mwyn iddynt allu lawrlwytho ffeiliau sain ac ymarfer Saesneg rhwng dosbarthiadau”.

46. Nododd Aelodau sylwadau oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor yn dweud:

“rydym yn datblygu polisi Saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill, a fydd yn bwysig wrth fynd i'r afael â'r materion hyn”.

47. Roedd Aelodau o'r farn y gallai'r polisi hwn o bosibl gynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o bwysigrwydd creu darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar gyfer gweithwyr mudol mewn gweithleoedd. Roedd Aelodau hefyd o'r farn y gallai'r polisi hwn o bosibl ymgorffori ariannu ychwanegol i SABau ar gyfer darparu hyfforddiant iaith ychwanegol, cronfa ddata o athrawon Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, a chyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol i hwyluso gwirfoddolwyr i addysgu Saesneg.

48. Roedd Aelodau o'r farn y gallai sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol gynorthwyo gweithwyr mudol trwy ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd priodol, a thrwy fod â staff ar y rheng flaen sydd â sgiliau ieithyddol. Nododd Aelodau'r gwerth y mae Heddlu Gogledd Cymru'n ei osod ar fod â swyddog sy'n siarad Pwyleg a Phorthiwgaleg yn rhugl, gan ei ystyried yn gyswllt allweddol rhwng yr heddlu a'r cymunedau mudol hyn. Nododd Aelodau hefyd fod Heddlu Gogledd Cymru wedi buddsoddi yn yr adnodd hwn, gan annog y swyddog i ddysgu Pwyleg, a'i dalu i deithio i Wlad Pwyl i ddysgu am yr iaith a'r diwylliant. Roedd Aelodau o'r farn bod hyn yn esiampl o arfer da y gallai sefydliadau eraill fod am ystyried ei dilyn, gan gadw mewn cof bod y swyddog wedi bod yn ieithydd cydnabyddedig cyn cael ei annog i ddysgu Pwyleg. Fodd bynnag, cydnabu Aelodau hefyd y gallai amrywiaeth ieithoedd gweithwyr mudol, gallu staff i ddysgu ieithoedd a chostau cysylltiedig ei gwneud yn anymarferol darparu hyfforddiant iaith priodol i staff. Nododd Aelodau hefyd sylwadau oddi wrth yr Heddlu a gwasanaethau cyhoeddus

eraill fod darparu gwasanaethau lladmeru'n golygu cost uchel, a chynyddol, gyda Heddlu Gogledd Cymru'n gwneud y sylw:

"i roi rhyw syniad ichi o raddfa'r cynnydd, yn 2002-03, fe wariais £5,000 ar ffioedd lladmeryddion; eleni, rwy'n debygol o wario mwy na £100,000 ar ffioedd lladmeryddion".

Argymhellodd y Pwyllgor:

- 7. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaeth sy'n nodi graddau'r angen am hyfforddiant yr iaith Saesneg ymhlith gweithwyr mudol, ac yn llunio cynllun gweithredu sy'n diwallu'r anghenion hyn. Dylai hwn fanylu ar amserlen ar gyfer cyflenwi hyfforddiant yr iaith Saesneg, a chynllun gweithredu cysylltiedig.**
- 8. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi sefydliadau i wneud yn fawr o sgiliau ieithyddol presennol eu staff ar y rheng flaen, i wella'r cyfathrebu â gweithwyr mudol a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys:**
 - a. darparu cyfarwyddyd ar gynnal archwiliadau sgiliau ieithyddol i alluogi sefydliadau i ddarganfod pa adnoddau iaith allai fod yn bodoli ymhlith eu staff; a**
 - b. darparu cyfarwyddyd ar ddatblygu staff sydd â sgiliau ieithyddol penodol.**
- 9. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymchwilio i ffurfiau amgen, hyblyg ar hyfforddiant iaith, gan gynnwys defnyddio technoleg.**

Thema 3: Gwella Amodau ar Gyfer Gweithwyr Mudol a'u Teuluoedd

Arferion Anghyfreithlon, Arferion Annerbyniol a Sïon

49. Derbyniodd Aelodau dystiolaeth gymysg ynghylch graddau arferion anghyfreithlon y mae gweithwyr mudol yn dioddef ohonynt. Wrth ystyried y dystiolaeth hon, ymdrechodd y Pwyllgor i wahaniaethu rhwng arferion anghyfreithlon, arferion cyfreithlon ond annerbyniol a thystiolaeth ddi-sail a allai o bosibl fod o ganlyniad i si a myth.

50. Sylwodd Aelodau fod nifer y cwynion penodol ynglŷn ag arfer anghyfreithlon y mae gweithwyr mudol yn dioddef ohono'n gymharol isel. Er enghraifft, wrth nodi nifer o enghreifftiau penodol o gamfanteisio, nododd Mr Anthony Packer, Is-gennad Anrhydeddus Lithwania yng Nghymru:

"dywedodd y Llysgenhadaeth fod yna gyfradd o ryw ddau neu dri o achosion annifyr y mis, ac rydym yn siarad am y Deyrnas Unedig, y diriogaeth gyfan, gan gynnwys Gogledd Iwerddon".

51. Fodd bynnag, i gymhlethu pethau, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd mai canran fach iawn o'r problemau sy'n bodoli y mae nifer y cwynion yn ei chynrychioli. Roedd rhai tystion yn pryderu y gallai gweithwyr mudol fod yn rhy ofnus i gwyno a mentro cael eu diswyddo, hyd yn oed pan roeddent yn ymwybodol o'u hawliau. Er enghraifft, gwnaeth yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri (GLA) sylw:

"os gallwch chi wneud £1 yr awr, pan mai £1 y dydd yw'r cyflog gartref, nid ydych chi'n mynd i fod yn cwyno amdano".

52. Yn yr un modd, gwnaeth Mr Trepczynski, Gweinidog Gyngorydd Llysgenhadaeth Gwlad Pwyl yn Llundain, sylw:

"rydym ni'n gwybod bod y gyfraith yn cael ei thorri'n aml – mae ein profiad o fywyd go iawn yn gyson â'r ystadegau – ond weithiau mae pobl yn derbyn eu sefyllfa".

53. Nododd Aelodau hefyd dystiolaeth oddi wrth y GLA y gallai'r awch am arian, yn hytrach nag ofni cael eu diswyddo, arwain at weithwyr mudol yn dewis gweithio gormod o oriau oherwydd:

"pan mae gennych chi bobl sy'n cael eu talu'n briodol ar yr isafswm cyflog cenedlaethol, bydd ganddyn nhw rhywfaint o ddiddordeb mewn gweithio pa bynnag oriau sydd ar gael, gan nad ydyn nhw am fynd allan i ddiota; maen nhw am weithio cymaint o oriau â phosibl, cael ychydig o gwsg ac yna mynd yn ôl i'r gwaith".

54. Roedd Aelodau o'r farn bod y sylwadau hyn yn arbennig o arwyddocaol, gan nodi y byddai angen i unrhyw bolisiâu a ddatblygir i effeithio ar weithwyr mudol ystyried mor annhebygol ydyw y bydd llawer o weithwyr mudol yn cwyno'n ffurfiol. Nododd Aelodau hefyd beryglon i'r cyhoedd ehangach o weithwyr yn gweithio oriau rhy hir gyda pheiriannau trwm, er enghraifft.

55. Yn y pen draw, fodd bynnag, roedd Aelodau o'r farn bod y dystiolaeth gadarn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu bod mwyafrif y gweithwyr mudol yn cael llety a chyflogaeth dan amodau a oedd yn gyfreithlon. Er enghraifft, darganfu arolwg y TUC o weithwyr mudol fod mwyafrif (89%) yr ymatebwyr yn honni eu bod yn cael eu talu ar gyfradd fwy na'r isafswm cyflog cenedlaethol³.

56. Fodd bynnag, nododd Aelodau hefyd nad oedd rhai o'r amodau roedd gweithwyr mudol a gweithwyr y DU yn gweithio danynt, fel contractau oriau sero, yn ddymunadwy, ond roeddent er hynny'n gwbl gyfreithlon. Er enghraifft, bu Aelodau'n ystyried tystiolaeth oddi wrth Sefydliad Bevan yn nodi:

"er gwaethaf y dicter sydd wedi dod law yn llaw â datguddiadau ynglŷn â thâl isel, oriau hir, diffyg gwaith gwarantedig a didyniadau o dâl llawer o weithwyr mudol, mae llawer o'r arferion hyn, mewn gwirionedd, yn gyfreithlon".

57. Roedd Aelodau o'r farn bod angen gwneud mwy i godi safonau gwaith a thai yn uwch nag isafsymiau cyfreithiol.

58. Ar ben hyn, roedd Aelodau o'r farn bod lleiafrif arwyddocaol o weithwyr mudol, sy'n debygol o fod yn sylweddol fwy na nifer y rhai sy'n cwyno, yn dioddef o arferion anghyfreithlon.

59. Roedd Aelodau o'r farn y byddai felly angen y canlynol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn:

- cyfrifoldeb ar gyflogwyr a landlordiaid i fod yn ymwybodol o hawliau teuluoedd mudol;
- cyfrifoldeb ar sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol i nodi a rhoi gwybod am arferion anghyfreithlon; a
- chymhellid ragweithiol i orfodi'r gyfraith, nad yw'n dibynnu ar weithwyr mudol yn cwyno eu hunain.

60. Manylir ar ystyriaeth Aelodau o'r gofynion hyn, o ran cyflogaeth, tai, budd-daliadau a throsedd, yn yr is-adrannau a ganlyn.

Cyflogaeth

61. Roedd tystion yn pryderu bod llawer o weithwyr mudol yn cael eu cyflogi mewn swyddi sgiliau isel ar dâl isel. Roedd amodau gweithio gwael sy'n gysylltiedig â swyddi o'r fath, gan gynnwys oriau hir a chontractau oriau sero, yr un mor berthnasol i weithwyr mudol, gweithwyr Cymru a gweithwyr y DU. Awgrymodd tystion fod amodau'n debygol o fod yn waeth i weithwyr mudol a gweithwyr lleol a gyflogir trwy asiantaethau, ond gallai diffyg ymwybyddiaeth gweithwyr mudol o'u hawliau, a'u diffyg hyder i'w mynnu, eu gwneud yn arbennig o agored i niwed. Nodwyd bod y diffyg hyder hwn yn golygu bod llawer o weithwyr mudol yn gyndyn o ymuno ag Undebau Llafur, ynghyd â phrofiadau negyddol rhai gweithwyr mudol o Undebau Llafur yn eu gwledydd cartref.

³ Anderson B., Clark N., Parutis V., (2007) New EU Members? Migrant workers Challenges and Opportunities to UK Trades Unions: a Polish and Lithuanian case study, Llundain: TUC, tt.11.

62. Roedd arferion gwaith anghyfreithlon honedig roedd gweithwyr mudol yn dioddef ohonynt yn cynnwys: gweithwyr ddim yn cael eu talu; yn cael eu talu ar gyfradd is na'r lleiafswm cyflog neu ddim yn cael digon o dâl am y gwaith a wneir; slipiau cyflog ddim yn cael eu cynhyrchu; symiau heb awdurdod neu rhy fawr yn cael eu didynnu (e.e. ar gyfer bwyd, llety, dod o hyd i waith, a chludiant i'r gwaith ac oddi yno); a hawliau gwyliau llai manteisiol.

63. Awgrymodd sawl tyst nad oedd cyflogwyr weithiau'n ymwybodol o hawliau gweithwyr, a'u bod felly'n dilyn arferion gweithio anghyfreithlon trwy anwybodaeth. Argymhellodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru 'Astudiaeth o anghenion busnes cyflogwyr gweithwyr mudol yn y diwydiannau amaethyddiaeth a garddwriaeth gynhyrchu yng Nghymru' i'r Pwyllgor, a ddarganfu fod:

"Cyflogwyr yn dweud y byddent yn hoffi cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ofynion cyfreithiol pan roeddent yn cyflogi gweithwyr mudol".

64. Yn yr un modd, nododd yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri nad oedd rhai cyflogwyr rhesymol wedi bod yn ymwybodol o hawliau gweithwyr, a'u bod wedi newid eu harferion yn gyflym pan ddaethant yn ymwybodol ohonynt. Nododd Llysgenhadaeth Gwlad Pwyl yn Llundain hefyd y gallai pobl fudol fod yn gyflogwyr eu hunain, a'u bod nhw yn enwedig yn dueddol o fod yn anwybodus o'u hymrwymadau cyfreithiol.

65. Roedd tystion eraill yn pryderu mwy ynglŷn â gorfodi cyfrifoldebau cyflogwyr, o ystyried bod rhai cyflogwyr yn gwbl ymwybodol o'u hymrwymadau cyfreithiol, ond eu bod yn dewis peidio â'u cyflawni. Roedd y ganolfan Cyngor Ar Bopeth (CAB) a TUC Cymru fel ei gilydd yn pryderu bod angen mwy o adnoddau ar yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn wir, yn ôl Paul Whitehouse, Cadeirydd y GLA, roeddent wrthi'n casglu tystiolaeth ar y pryd a allai gyfiawnhau dadl dros adnoddau cynyddol.

66. Ar ben hyn, awgrymodd y ganolfan Cyngor Ar Bopeth nad oedd cylchoedd gorchwyl cyfunol y pedwar corff gorfodi statudol presennol yn gynhwysfawr. Gwnaeth y CAB sylw nad oedd unrhyw gorff gorfodi statudol yn bodoli ar hyn o bryd i gwyno iddynt:

- os nad yw'r gweithiwr wedi'i gyflogi trwy asiantaeth gyflogi – cylch gorchwyl yr Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogi (EASI);
- os nad yw'r gweithiwr yn 'ddarparwr llafur' yn y diwydiannau amaethyddiaeth, garddwriaeth, coedwigaeth, casglu cregynbysgod a diwydiannau prosesu a phecynnu cysylltiedig (cylch gorchwyl y GLA); ac
- os nad yw'r gŵyn yn ymwneud ag isafswm cyflogau neu fater ieuchyd a diogelwch (cylchoedd gorchwyl cyfunol is-adran gorfodi'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o Gyllid a Thollau EM, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch).

67. Yn wir, yn ôl yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri, cwestiwn cyffredin mae gweithwyr mudol, a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl fudol, yn ei godi oedd pam nad oedd cylch gorchwyl y GLA yn cael ei estyn, yn enwedig i'r sectorau lletygarwch a glanhau. Gwnaeth Paul Whitehouse, Cadeirydd y GLA, sylw efallai y byddai'n beth synhwyrol estyn cylch gorchwyl y GLA i drwyddedu mewn sectorau eraill, nawr ei fod wedi dangos y gallai weithredu'n effeithiol.

68. Fodd bynnag, awgrymodd y ganolfan Cyngor Ar Bopeth hefyd mai prin oedd y cymhelliant personol ar hyn o bryd i weithwyr unigol gwyno i EASI neu'r GLA oherwydd pe byddai darparwr llafur yn colli ei drwydded GLA, er enghraifft, gallai hynny olygu y bydd gweithiwr yn colli ei swydd. Yn wir, roedd y CAB a TUC Cymru'n pryderu y byddai systemau sy'n dibynnu ar gwynion oddi wrth unigolion, yn hytrach nag arolygu rhagweithiol, yn anochel yn golygu mai canran fach iawn yn unig o arferion camfanteisio sy'n bodoli y byddai cwynion ffurfiol yn eu cylch, gan y byddai llawer o unigolion yn rhy ofnus i gwyno. O'r herwydd, argymhellodd y ganolfan Cyngor Ar Bopeth y dylid:

"estyn y gyfundrefn orfodi ragweithiol sy'n gysylltiedig â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol – un sydd wedi'i seilio ar arolygiadau Cyllid a Thollau EM sy'n targedu cyflogwyr amheus yn ofalus, yn ogystal ag ymchwilio i gwynion unigol, dienw a thrydydd parti – i gwmpasu pob hawl statudol sylfaenol yn y gweithle".

69. Awgrymodd y ganolfan Cyngor Ar Bopeth y gellid cyflawni hyn trwy rwydwaith integredig o'r pedair asiantaeth orfodi sy'n bodoli, gan estyn eu cylch gorchwyl cyfunol i gwmpasu pob hawl cyflogaeth sylfaenol, gan gynnwys sicrhau hawlau gweithwyr unigol a'r gallu i roi cosbau effeithiol ar gyflogwyr sy'n camfanteisio'n gyson. Neu, yn lle hynny, awgrymodd y CAB y gellid cyflawni hyn trwy un asiantaeth newydd, sef 'comisiwn cyflogaeth deg', a fyddai'n cwmpasu'r pedair asiantaeth sy'n bodoli ac a fyddai'n gyfrifol am orfodi pob rhan o gyfraith cyflogaeth. Y ganolfan Cyngor Ar Bopeth oedd yr unig dyst i awgrymu hyn yn benodol yn ystod yr ymchwiliad hwn, er y gwnaeth y GLA sylw eu bod ar ddeall bod 'arolygiaethau llafur' yn gyfrifol am bob cyfraith sy'n ymwneud â llafur yng ngwladwriaethau eraill yr UE. Gwnaeth Gyrfa Cymru sylw hefyd:

"Dylai'r Llywodraeth ystyried cyfundrefn orfodi fwy rhagweithiol, ond ar yr un pryd sicrhau y gosodir cyn lleied â phosibl o lwyth ychwanegol ar fwyafrif y cyflogwyr da".

70. Nododd Aelodau fod Fforwm Gorfodi ar gyfer Gweithwyr Agored i Niwed wedi'i sefydlu ym mis Mehefin 2007 i edrych ar ffyrdd y gallai'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, y GLA, yr Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogi a'r Arolygiaeth Isafswm Cyflog Cenedlaethol gydweithio'n fwy effeithiol i sicrhau bod gweithwyr agored i niwed (gan gynnwys gweithwyr mudol) yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Roedd Aelodau o'r farn y byddai estyn cylch gorchwyl y GLA a datblygu 'Comisiwn Cyflogaeth Deg' o bosibl yn gamau allweddol wrth alluogi cyfundrefn ragweithiol i orfodi'r gyfraith, nad yw'n dibynnu ar weithwyr mudol yn cwyno eu hunain.

71. Roedd Aelodau hefyd o'r farn y byddai codi safonau gweithio y tu hwnt i ofynion sylfaenol cyfreithiol yn cynrychioli cynnydd tuag at wella amodau ar gyfer gweithwyr mudol, eu teuluoedd ac, yn wir, ar gyfer gweithwyr y DU a'u teuluoedd. Roedd Aelodau o blaid awgrym gan TUC Cymru y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio cytuno ar god ymddygiad gwirfoddol yn ymwneud â recriwtio a chyflogi llafur mudol. Roedd Aelodau'n pryderu i ddechrau y gallai cod o'r fath fod yn aneffeithiol, gan na fyddai cyflogwyr digydwybod yn trafferthu i'w lofnodi. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor hefyd dystiolaeth oddi wrth Is-genhadon Anrhydeddus fod cyflogwyr ag enw da wedi

cysylltu â nhw, yn awyddus i hybu eu hunain i weithwyr mudol fel cyflogwyr cyfrifol a fyddai'n cynnal hawliau gweithwyr mudol. Roedd Aelodau o'r farn y gallai'r rhai a fyddai'n llofnodi'r cod eu hybu eu hunain fel cyflogwyr cyfrifol gweithwyr mudol, a thrwy hynny ennill y blaen ar gyflogwyr llai cydwybodol. Nododd Aelodau y gallai'r cod ymddygiad hwn gynnwys rhestr wirio syml o'r pethau i'w gwneud a'r pethau i'w hosgoi, ac y gallai hefyd gynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â thai ar gyfer cyflogwyr sydd hefyd yn darparu llety i'w gweithwyr. Nododd Aelodau y gallai'r cod fynd y tu hwnt i safonau sylfaenol cyfreithiol, ac y gellid ei ddefnyddio i godi a chynabod safonau ac arferion gweithio da. Nododd Aelodau hefyd y byddai angen datblygu arfau i alluogi monitro p'un a yw cyflogwyr yn glynu at y cod ai peidio.

72. Roedd Aelodau o'r farn hefyd y gallai 'Fforwm Pobl Fudol' Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyfleoedd ar gyfer ffurfio dull strategol cenedlaethol o fynd ati i integreiddio gweithwyr mudol. Gwnaeth Aelodau sylw y gallai'r fforwm hwn ystyried dulliau o sicrhau bod cyflogwyr yn talu'r isafswm cyflog o leiaf i'w gweithwyr mudol. Nododd Aelodau fod '*Creation of a Migrants Forum*', sef Adroddiad ar Benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn dweud:

"Gofynnwyd i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ('y Gweinidog') sefydlu 'Fforwm Pobl Fudol' i ddisodli is-grŵp Gweithwyr Mudol blaenorol y Fforwm Polisi Cymru Gyfan ar Ffoaduriaid ('AWRPF')...Bydd y 'Fforwm Pobl Fudol' yn eistedd o fewn yr arena strategol ehangach o grwpiau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys y Fforwm Effeithiau Ymfudo, y Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol a'r Fforwm Polisi Cymru Gyfan ar Ffoaduriaid. Bydd y 'Fforwm Pobl Fudol' yn darparu gwybodaeth benodol o bwys cenedlaethol, yn ogystal â derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf/gwybodaeth oddi wrth y grwpiau uchod. Ni fydd gan y fforwm unrhyw bwerau penderfynu".

73. Nododd Aelodau hefyd fod dau dyst, sef AWEMA ac Oxfam, wedi awgrymu bod gofal plant yn broblem benodol i weithwyr mudol wrth iddynt geisio cyflogaeth, oherwydd rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol. Gwnaeth Oxfam sylw nad oedd gofal plant priodol ar gael i weithwyr mudol, ac felly roedd yna lawer o weithwyr mudol nad oeddent yn gallu gweithio. Awgrymodd AWEMA y dylid trefnu cyrsiau hyfforddiant gofal plant er mwyn galluogi gweithwyr mudol i weithio mewn meithrinfeydd lleol. Roedd Aelodau o'r farn bod y rhain yn awgrymiadau gwerthfawr, ond y byddai canolbwyntio adnoddau ar alluogi gweithwyr mudol a'u teuluoedd i ddysgu sgiliau ieithyddol yn galluogi gweithwyr mudol i ddilyn cyrsiau hyfforddiant y brif ffrwd a defnyddio meithrinfeydd y brif ffrwd.

Argymhellodd y Pwyllgor:

10. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio cytuno â Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a'r Undebau Llafur ar God Ymddygiad gwirfoddol yn ymwneud â recriwtio a chyflogi llafur mudol, ac annog cyflogwyr i'w llofnodi. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynd ati'n bositif i hybu llofnodwyr i'r cod hwn.

- 11. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU a sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol i ymestyn cylch gorchwyl yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri.**
- 12. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU â'r bwriad o sefydlu 'Comisiwn Cyflogaeth Deg' i gwmpasu'r pedair asiantaeth orfodi sy'n bodoli, gyda chylch gorchwyl estynedig i gynnwys yr holl hawliau cyflogaeth sylfaenol. Byddai gan y Comisiwn hwn y pŵer, lle bo angen, i wneud hawliad i Dribiwnlys Cyflogaeth ar ran gweithiwr, a gorfodi dyfarniad.**

Iechyd a Diogelwch

74. Wrth ystyried materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â gweithwyr mudol, nododd Aelodau fod deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yr un mor berthnasol i bob gweithiwr yng Nghymru, gan reoleiddio risgiau i gyflogeion ac i eraill y gallai eu gwaith effeithio arnynt.

75. Gwnaeth sawl tyst sylw y gallai diffyg gwybodaeth gweithwyr mudol am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a'u hofn o'u cynnal, effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch, ac iechyd a diogelwch pobl eraill. Gwnaeth y GLA sylw mai:

"y senario arswyd... yw'r fan sydd ar ei ffordd adref gyda gyrrwr sydd wedi bod yn gyrru'r fan honno ar ddechrau a diwedd ei sifft am y pum diwrnod diwethaf, ac felly wedi bod yn gyrru am 80 awr yn ôl pob tebyg, yn bwrw yn erbyn ciw o blant yn dod allan o'r ysgol".

76. Nododd Aelodau mai naill ai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) neu awdurdod lleol sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, gan ddibynnu ar natur y gwaith dan sylw. Roedd yr HSE yn gorfodi sectorau fel Amaethyddiaeth ac Adeiladu, tra bo awdurdodau lleol yn gorfodi sectorau fel siopau, bwytai ac arlwyo.

77. Nododd Aelodau dystiolaeth oddi wrth yr HSE yn dweud ei fod yn archwilio marwolaethau ac anafiadau difrifol yn y gwaith, ac y gallai gymryd camau gorfodi o ganlyniad i hyn. Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr HSE hefyd nad oedd wedi derbyn tystiolaeth sylweddol i archwilio honiadau o amodau brawychus mewn gweithleoedd, er ei fod wedi clywed sïon ynglŷn â hyn. Dywedodd yr HSE y byddai'n croesawu gwybodaeth o'r fath, a byddai'n fodlon ymdrin ag achwynwyr yn ddienw.

78. Nododd Aelodau hefyd fod yr HSE wedi cyfrannu at y pecyn 'Croeso i Gymru' i weithwyr mudol, a'i fod yn bartner yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru, ei fod wedi mynychu canolfannau galw heibio i bobl fudol, ei fod wedi annerch gweithwyr o Wlad Pwyl ym Mangor a Wrecsam, a'i fod wedi rhedeg seminar i gyflogwyr ac asiantaethau cyflogaeth ar faterion yn ymwneud â gweithwyr mudol.

79. Roedd y goblygiadau posibl i weithwyr mudol o ran iechyd a diogelwch yn sgil gweithio oriau hir, neu ymhél ag arferion anghyfreithlon, yn achosi pryder i Aelodau. Fodd bynnag, nododd Aelodau hefyd mai prin oedd y dystiolaeth i

gyfiawnhau ofnau o'r fath, ac roeddent yn pryderu y gallai'r rhain beri mythau newydd ynglŷn â gweithwyr mudol yn anfwriadol. Roedd Aelodau o'r farn y gellid datrys y pryderon hyn fwyaf effeithiol drwy:

- hybu gwybodaeth i weithwyr mudol ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- galluogi asiantaethau a sefydliadau sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr mudol i nodi arferion anghyfreithlon posibl a rhoi gwybod amdanynt (ystyrir hyn yn fanylach yn Thema 4); a
- gwaith rhagweithiol, archwiliadol trwy 'Gomisiwn Cyflogaeth Deg', neu gyfuniad integredig o asiantaethau gorfodi sydd eisoes yn bodoli.

Tai

80. Nododd Aelodau fod gweithwyr mudol a'u teuluoedd ar y cyfan yn byw mewn llety yn y sector gosod preifat. Daeth diffyg gwybodaeth gweithwyr mudol am eu hawliau a'u cyfrifoldebau (fel y manylir arno yn Thema 1), i'r amlwg mewn achosion lle nad oedd gweithwyr yn gwybod am gyfraith cytundebau tenantiaeth. Roedd tystion yn pryderu bod hyn, yn ei dro, yn arwain at bobl fudol yn bod yn fwy agored i landlordiaid digydwylbod gamfanteisio arnynt. Roedd Aelodau'n pryderu'n benodol ynglŷn ag arferion fel gweithwyr mudol yn cysgu mewn sifftiau, gyda 2 neu 3 o bobl ar wahân yn cysgu yn yr un gwely yn ystod cyfnod o 24 awr.

81. Fodd bynnag, awgrymodd tystion nad oedd y ffurfiau mwyaf eithriadol o gamarferion sy'n ymwneud â thai, fel rhannu gwelyau mewn sifftiau, yn gyffredin mwyach. Gwnaeth CLILC sylw nad oedd wedi dod o hyd i brawf bod arferion rhannu gwelyau mewn sifftiau yn digwydd yn ystod blynyddoedd diweddar, er bod llawer o bobl yn siarad am hyn. Gwnaeth USDAW sylw tebyg, gan ddweud nad oedd yn credu bod rhannu gwelyau mewn sifftiau'n beth cyffredin mwyach, er bod gorlenwi'n beth cyffredin. Nododd esgobaeth Wreccsam hefyd eu bod wedi clywed adroddiadau anecdotaidd o rannu gwelyau mewn sifftiau, er nad oeddent wedi derbyn prawf go iawn.

82. Ar ben hyn, nododd tystion arferion honedig eraill yn ymwneud â thai a oedd yn ddrwg ac yn anghyfreithlon, gan gynnwys: eiddo heb ei gofrestru; gwrthod dychwelyd bondiau; diffyg cytundebau tenantiaeth; troi tenantiaid allan yn anghyfreithlon; a pheidio â chydymffurfio â rheoliadau diogelwch, er enghraifft gorlenwi. Gwnaeth AWEMA sylw y gallai landlordiaid gamfanteisio ar ddiffyg gwybodaeth gweithwyr i'r graddau y byddai dau neu hyd yn oed tri teulu'n rhannu tŷ. Nododd SEWREC:

"nid yw gorlenwi gwirfoddol yn anghyfreithlon – ond gall arwain at nifer o broblemau, fel cwynion cymdogion, materion yn ymwneud ag iechyd, difrod i eiddo, a thorri prydles, sef sefyllfa lle gall y landlord droi'r tenantiaid allan heb rybudd ymlaen llaw".

83. Gwnaeth dau dyst awdurdod lleol sylw hefyd bod y stoc dai yn gyfyngedig, gyda Chyngor Sir y Fflint yn nodi bod y galw cynyddol am lety'n effeithio ar restrau aros. Yn yr un modd, nododd Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf ôl-gronni ar restrau tai oherwydd cynnydd ym meintiau'r boblogaeth. Fodd bynnag, roedd tystion eraill, gan gynnwys gweithwyr ym Mharc Caia, o'r farn bod gweithwyr mudol yn arbennig o agored i fod yn ddigartref gan na allent

gymhwyso i gael llety brys. Yn wir, awgrymodd CLILC y dylai Llywodraeth ganolog ystyried datblygu cronfa frys ar gyfer unigolion amddifad na allent gymhwyso i gael cymorth tai. Roedd Aelodau o'r farn bod rhinwedd i'r awgrym hwn, ond roeddent yn pryderu y gallai pobl gamfanteisio arno o bosibl.

84. Awgrymodd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad fod amodau byw gwael yn arbennig o gysylltiedig â llety sydd 'ynghlwm wrth' contractau cyflogaeth. Roedd hyn yn ychwanegu at weithwyr yn ofni mynnu eu hawliau, oherwydd eu bod yn ofni y gallent gael eu diswyddo a'u gwneud yn ddigartref ac yn amddifad mewn un cam. Awgrymodd dau dyst y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn drwy sesiynau meithrin hyder ar gyfer gweithwyr mudol, fel gweithdai celf. Fodd bynnag, roedd Aelodau o'r farn y byddai tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn, yn enwedig yn ymwneud â chyndynrwydd llawer o weithwyr mudol o ddwyn sylw at eu hunain trwy gwyno, yn awgrymu y byddai llawer o weithwyr yn gochel rhag mynychu gweithdai o'r fath. Yn hytrach na hyn, roedd Aelodau o'r farn mai cyfundrefn ragweithiol ac ymchwiliadol i orfodi'r gyfraith, ar y cyd â chynyddu gwybodaeth gweithwyr mudol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau, fyddai'r mecanwaith mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Argymhellodd y Pwyllgor:

13. Fod Fforwm Pobl Fudol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag amodau byw gwael i weithwyr mudol, gan ymgysylltu â'r Gweinidog dros Dai.

Y System Fudd-daliadau

85. Cododd tystion bryderon y gallai deddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â chymhwyster ar gyfer budd-daliadau annog gweithwyr mudol i beidio â mynnu eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Nododd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-Ddwyrain Cymru:

"Ni all dinasyddion gwledydd y tu allan i'r UE ofyn am gymorth o gronfeydd cyhoeddus, a byddai colli swydd yn sgil cwyn yn golygu amddifadedd".

86. Nododd tystion hefyd fod dinasyddion A8 ac A2 yr UE yn gyndyn o fynnu eu hawliau os nad oeddent wedi bod mewn cyflogaeth barhaus am 12 mis, gan na fyddai ganddynt unrhyw hawl i fudd-daliadau pe bai eu cyflogaeth yn dod i ben. Rhoddodd tystion enghreifftiau i'r Pwyllgor hefyd o weithwyr mudol unigol a oedd wedi colli eu swyddi ac a oedd, o'r herwydd, wedi'u gwneud yn amddifad, heb hawl i ofyn am gymorth o gronfeydd cyhoeddus. Mae aelod-wladwriaethau A8 yr UE yn cynnwys y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia. Mae aelod-wladwriaethau A2 yr UE yn cynnwys Bwlgaria a Rwmania. Unwaith y bydd dinasyddion A2 ac A8 wedi cwblhau cyflogaeth am 12 mis yn ddi-dor, mae ganddynt yr un hawliau â gweithwyr eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, fel y rheiny o'r DU, Ffrainc neu'r Almaen. Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys 27 Aelod-wladwriaeth yr UE a 3 gwladwriaeth arall: Gwlad yr Iâ, Lichtenstein a Norwy.

87. Codwyd pryderon hefyd ynghylch darpariaeth cyngor i weithwyr mudol ynglŷn â'u hawliau i fudd-daliadau, trwy sefydliadau sy'n dod i gysylltiad â nhw. Gwnaeth SEWREC sylw fod Canolfan Byd Gwaith, nad oedd yn defnyddio gwasanaethau lladmeru i'r eithaf, yn arwain at:

"wrthod budd-daliadau i nifer mawr o gleientiaid cymwys, neu at roi stop i fudd-daliadau cleientiaid, oherwydd nad oeddent yn deall eu hymrwymiaadau fel ceiswyr gwaith (er enghraifft, llenwi'r dyddiadur chwilio am waith)".

88. Roedd Aelodau o'r farn bod darparu'r wybodaeth gywir am hawliau i fudd-daliadau'n hanfodol i ddatrys pryderon ynghylch mynediad gweithwyr mudol at fudd-daliadau. Manylir ar ystyriaeth ac argymhellion Aelodau ar gymorth i sefydliadau sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr mudol a'u teuluoedd yn Thema 4 yr adroddiad hwn. Roedd Aelodau hefyd o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol adolygu system fudd-daliadau'r DU, ar sail egwyddor galluogi gweithwyr mudol o Aelod-wladwriaethau A8 ac A2 Ewrop gael mynediad tebyg at fudd-daliadau â gweithwyr eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. Nododd Aelodau mai Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor yn unig yr oedd gan weithwyr mudol o wledydd A8, er enghraifft, hawl iddynt ar hyn o bryd, a hynny os oeddent mewn gwaith ar y pryd, neu os oeddent wedi cael cyflogaeth ddi-dor am ddeuddeg mis yn flaenorol. Roedd Aelodau o'r farn y gellid adolygu hyn, ar sail egwyddor galluogi gweithwyr mudol A8 ac A2, pe baent yn colli eu swyddi, i gadw eu statws gweithiwr a bod â hawl i wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm) neu Gymhorthdal Incwm yn y modd arferol, yn ogystal â bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor.

Argymhellodd y Pwyllgor:

14. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU ynglŷn ag adolygu system fudd-daliadau'r DU, ar sail egwyddor darparu mynediad tebyg at gymorth budd-daliadau i weithwyr mudol o Aelod-wladwriaethau A8 ac A2 yr UE â gweithwyr eraill o aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Trosedd

89. Yn groes i fythau bod cysylltiad rhwng gweithwyr mudol a throsedd, mae tystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn yn awgrymu nad yw gweithwyr mudol yn fwy tebygol o fod yn droseddwr, neu'n ddioddefwyr troseddau, nag unrhyw ddinasyddion eraill y DU. Gwnaeth Mr Anthony Packer, Is-gennad Anrhydeddus cynrychiolaeth Lithwania yng Nghymru, sylw mai o boblogaeth fudol Lithwanaidd o oddeutu 200,000 yn y DU, 209 yn unig oedd yn y carchar. Yn yr un modd, datganodd Heddlu Gogledd Cymru:

"Nid yw cyfran y gweithwyr mudol a phobl o wledydd dwyrain Ewrop sy'n dioddef o drosedd yn fwy na chyfran unrhyw rai eraill, ac nid ydynt yn troseddu mwy nag unrhyw rai eraill ychwaith".

90. Dywedodd Cymdeithas Gydfuddiannol Pwyliaid Cymru eu bod yn credu nad oedd yr heddlu'n cael gwybod am yr holl droseddau yn erbyn pobl fudol mewn rhai cymunedau, er na awgrymwyd hyn yn nhystiolaeth tystion eraill. Fodd bynnag, roedd Aelodau o'r farn nad oedd cydbwysedd y dystiolaeth yn yr ymchwiliad hwn yn cyfiawnhau gwneud argymhellion penodol o ran trosedd sy'n gysylltiedig â gweithwyr mudol.

Bancio

91. Roedd rhai tystion yn pryderu y gallai gweithwyr mudol ei chael yn anodd agor cyfrifon banc, gyda chyfathrebu'n rhwystr penodol. Nododd AWEMA:

"mae gweithwyr mudol yn aml yn methu â bodloni'r rhestr o feini prawf, fel cadarnhau cyfeiriad, sy'n gysylltiedig â rhwystrau i fynediad at wasanaethau eraill".

92. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor hefyd ddatblygiadau mewn blynyddoedd diweddar tuag at ddatrys y mater hwn. Nododd y Pwyllgor fod NatWest wedi lansio Cyfrif Croesawu Pwyliaid ym mis Ionawr 2007, gyda'r holl wasanaethau'n cael eu cyflwyno ym Mhwyleg, gan gynnwys bancio dros y ffôn a thrwy'r rhyngwrdd, yn ogystal ag uned deleffoni i'r pwrpas, â staff sy'n siarad Pwyleg. Gwnaeth NatWest sylw fod y cyfrif banc hwn yn galluogi:

"trosglwyddo arian yn rhad ac am ddim i Wlad Pwyl o Gyfrif Croeso NatWest i unrhyw gyfrif PKO BP trwy bartneriaeth â'r Banc Pwylaidd, PKO PB".

93. Nododd NatWest hefyd fod cyflwyno'r cyfrif hwn wedi cael sylw positif yn y wasg (manylir ar hyn drosodd).

94. Nododd Aelodau hefyd waith gwerthfawr undebau credyd wrth alluogi gweithwyr nad ydynt yn gallu agor cyfrifon banc i oresgyn allgáu ariannol. Nododd Aelodau fod y rhain yn ddatblygiadau positif, gan annog pob banc i gynyddu eu darpariaeth gwasanaethau i ystod ehangach o ieithoedd.

Ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus NatWest / PKO PB

Yr hyn a ddywedodd y papurau

Mae NatWest wedi ymuno â banc Pwylaidd i gynyddu'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i Bwyliaid sy'n byw yn y DU ... Mae hyn yn sgil lansio Cyfrif Croeso NatWest, sy'n cynnig bancio dros y ffôn a thrwy'r rhyngwyd yn y Bwyleg, yn ogystal â chanolfan alwadau Bwyleg. The Scotsman	NatWest yw'r cyntaf o bedwar banc mawr Prydain i fynd i bartneriaeth â banc Pwylaidd wrth geisio darparu ar gyfer mwy o gwsmeriaid a aned yng Ngwlad Pwyl ac sy'n seiliedig yn y DU. This is Money	Mewn arwydd arall o ddylanwad economaidd Pwyliaid yn y DU, dywedodd NatWest ddoe ei fod wedi ymuno â banc Pwylaidd, sef PKO Bank Polski, i gynyddu gwasanaethau i fewnfudwyr. Dywedodd y banc stryd fawr mai'r bartneriaeth hon oedd y gyntaf o'i bath yn y DU ... Dywedodd fod Pwyliaid sy'n byw ym Mhrydain yn anfon tua £528 miliwn adref pob blwyddyn. The Daily Express
---	---	---

- Bu Cysylltiadau cyfryngau NatWest yn gweithio'n agos ag asiantaeth Cysylltiadau Cyhoeddus PKO PB i ddatblygu strategaeth Cysylltiadau Cyhoeddus gydlynol i roi cyhoeddusrwydd i'r bartneriaeth
- Bu'r ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus yn y wasg yn y DU ac yng Ngwlad Pwyl yn hynod lwyddiannus
- Sicrhawyd sylw positif yn y wasg genedlaethol yn y DU, gan gynnwys The Daily Express, The Scotsman a The Daily Record. Soniwyd am y bartneriaeth ar raglen Moneybox BBC Radio 4 yn ddiweddar hefyd
- Sicrhawyd sylw helaeth yn y wasg ar y gwifrau newyddion, fel This is Money (Daily Mail/Mail on Sunday), Cymdeithas y Wasg, Reuters a Dow Jones
- Sicrhawyd sylw eang yn y wasg ranbarthol hefyd mewn cyfryngau allweddol, fel The Manchester Evening News
- Sylw aruthrol yn y wasg genedlaethol a'r wasg ddarlledu yng Ngwlad Pwyl

Thema 4: Hybu perthnasoedd da rhwng gweithwyr mudol a'u teuluoedd, a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt

95. Roedd nifer o dystion yn pryderu y gallai gweithwyr mudol ddioddef o deimlo'n ynysig ac o ddiffyg cefnogaeth gymdeithasol. Roedd y Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon yn pryderu ynghylch diffyg sefydliadau cynrychioliadol sydd wedi hen sefydlu, tra bo Oxfam hefyd yn pryderu ynghylch diffyg rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliant cymorth. Awgrymodd CLILC fod teimlo'n ynysig yn dod yn sgil trefniadau cyflogaeth, llety a chludiant gweithwyr mudol, gyda fawr o gyfle i ymgysylltu â Phobl fudol eraill, a llai fyth i ymgysylltu â'r boblogaeth frodorol, gan wneud y sylw:

“nid ydyn nhw mewn gwirionedd yn rhyngweithio o gwbl oni bai fod yna rhywfaint o waith yn digwydd yn benodol i helpu yn hynny o beth”.

96. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth a gasglwyd yn yr ymchwiliad hwn yn cynnwys nifer o enghreifftiau o weithwyr mudol yn llwyddo i integreiddio a ffurfio perthynas â chymunedau lleol a phobl eraill o'u gwledydd eu hunain. Er enghraifft, roedd dinasyddion Gwlad Pwyl wedi'u recriwtio fel cwnstablaid arbennig yng Ngogledd Cymru, ac fel cyfieithwyr a chynghorwyr gwirfoddol yng Nghymdeithas Gydfuddiannol Pwyliaid Cymru. Nododd gweithwyr ym Mharc Caia eu bod wedi datblygu Grŵp Merched Pwylaidd, wedi'i hwyluso gan siaradwr Pwyleg brodorol. Yn yr un modd, nododd dystion fod fforymau a chlybiau cymdeithasol gweithwyr yr Eglwys Gatholig yn darparu cyfleoedd i weithwyr mudol a'u teuluoedd gyfarfod a dod yn ffrindiau.

97. Roedd llawer o'r mythau o amgylch gweithwyr mudol hefyd yn achosi pryder i dystion, oherwydd eu bod yn ofni y gallai'r rhain annog gwahaniaethu ac aflonyddu. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn yn nodi nad yw gweithwyr mudol yn 'cymryd swyddi' oddi wrth bobl frodorol, er codwyd pryderon bod rhai asiantaethau sy'n cyflogi gweithwyr mudol yn gyfrifol am dynnu cyflogau, amodau a thelerau i lawr. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd hefyd yn gwrthbrofi mythau bod gweithwyr mudol yn cael eu trin yn fwy ffafriol na dinasyddion brodorol y DU. Roedd llawer o sefydliadau'n gweithio ar ddosbarthu taflenni sy'n chwalu'r mythau, gyda gweithwyr ym Mharc Caia yn nodi bod y rhain, fel pecynnau croeso i weithwyr mudol, yn fwy effeithiol pan fydd bobl y mae eu cynulleidfarn ymddiried ynddynt yn eu dosbarthu. Nododd TUC Cymru hefyd y gallai gweithgareddau chwalu'r mythau fod yn fwy effeithiol pe baent yn cael eu cydlynu, yn enwedig o amgylch digwyddiadau fel etholiadau lleol. Nododd gweithwyr Parc Caia hefyd werth hybu cyfraniadau positif gweithwyr mudol i'r cyfryngau, sef dull o weithredu y mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd o'i blaid, gyda Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn nodi gwerth gwneud adroddiadau cyfrifol yn y cyfryngau.

98. Roedd Aelodau o'r farn y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru chwarae rôl arwyddocaol wrth hybu cyfraniadau a chyflawniadau positif gweithwyr mudol yng Nghymru. Nododd Aelodau dystiolaeth oddi wrth Shelter Cymru y gellid defnyddio gwahanol dechnegau cyfathrebu i greu delweddau penodol o bobl, gan wneud sylw:

“Yng Nghymru, gwnaethom benderfynu ein bod am i bobl weld lluniau o bobl sy’n edrych yn debyg iddyn nhw eu hunain, i atgyfnerthu’r neges y gall unrhyw un gael ei hun yn ddigartref. Nid yw’r delweddau byth yn fygythiol, ac maen nhw’n aml yn cynnwys plant hefyd. Nid ydym yn defnyddio delweddau o amodau tai gwael oni bai ei fod yn arbennig o addas ar gyfer y cyhoeddiad penodol. Rydym yn canolbwyntio ar y positif a’r gobeithiol.

Mae polisi ein chwaer-elusen yn Lloegr, sef Shelter, yn fwy ymosodol, ac mae’n defnyddio tacteg sioc yn ei delweddaeth. Rydym wedi adolygu ein polisi sawl tro, ac rydym yn dal i deimlo mai dyma’r ffordd iawn o weithredu ar gyfer y farchnad yng Nghymru”.

99. Roedd Aelodau o’r farn y gallai dewis delweddau a negeseuon yn effeithiol chwarae rôl allweddol o ran galluogi hybu cyfraniadau positif gweithwyr mudol yng Nghymru.

100. Ar ben hyn, awgrymodd sawl tyst y gellid cydlynu sefydliadau sy’n gweithio i gefnogi gweithwyr mudol yn well, ac nad ydynt ar hyn o bryd yn cael fawr o gyfle i ddysgu’r naill oddi wrth y llall. Awgrymodd Cyngor Defnyddwyr Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig y byddai’n werthfawr cael adnoddau canolog a chyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer rhannu arfer da, sef pryder roedd gweithwyr ym Mharc Caia’n ei rannu. Yn yr un modd, pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili werth rhannu gwybodaeth yn amserol, ac argymhellodd TUC Cymru a Chyngor Sir Wrecsam fel ei gilydd ddull strategol o fynd ati i integreiddio gweithwyr mudol.

101. Nododd Aelodau’r rôl hynod werthfawr y mae sefydliadau sy’n gweithio i gynorthwyo gweithwyr mudol i ymsefydlu mewn cymunedau lleol yn ei chwarae. Nododd Aelodau fod ymwneud pobl fudol yn y sefydliadau hyn, fel Monika ac Agnieszka ym Mharc Caia, yn arbennig o werthfawr o ran cael cymunedau brodorol a mudol fel ei gilydd i ymddiried mewn sefydliadau. Nododd Aelodau hefyd bwysigrwydd sefydliadau’n cydweithio mewn modd cydlynol, gan nodi effeithiolrwydd gweithwyr Parc Caia a’r heddlu lleol yn cydweithredu i ddiffodd fflamau sïon a datblygu ymddiriedaeth rhwng y cymunedau mudol a brodorol.

102. Nododd Aelodau hefyd y gallai addysg ddarparu cyfle gwerthfawr i adeiladu perthnasoedd positif a dealltwriaeth rhwng poblogaethau brodorol a mudol Cymru. Nododd Aelodau dystiolaeth o ysgolion yn Sir y Fflint yn datblygu cysylltiadau ag ysgolion yng Ngwlad Pwyl ac mewn gwledydd eraill. Roedd Aelodau hefyd yn cytuno â’r Tad Adrian Wilcox, Esgobaeth Wrecsam, ynglŷn â gwerth hyfforddi staff addysg mewn dulliau addysgu a ddefnyddir mewn gwledydd eraill, i’w cynorthwyo i integreiddio myfyrwyr mudol yn effeithiol.

Argymhellodd y Pwyllgor:

15. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n annog ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â’u cymheiriaid mewn gwledydd eraill.

16. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n hybu cyfraniadau a chyflawniadau positif gweithwyr mudol yng Nghymru i gymunedau lleol yng Nghymru.

- 17. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi sefydliadau sy'n gweithio i recriwtio gwirfoddolwyr o blith cymunedau mudol i weithio mewn lleoliadau cymunedol.**
- 18. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hwyluso rhwydweithio rhwng sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, â'r nod o rannu arfer da.**
- 19. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu 'both wybodaeth' ar y we ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol. Byddai'r wefan hon yn cyfeirio defnyddwyr at fanylion cyswllt sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, gan eu galluogi i lunio cysylltiadau a thrafod arfer da. Byddai'r wefan hefyd yn cyfeirio defnyddwyr at asiantaethau gorfodi rheoleiddiol a ffynonellau allweddol eraill lle ceir gwybodaeth ddibynadwy. Gallai'r porth hwn hefyd ddarparu dolenni i gyngor ar gyrchu gwasanaethau cyfieithu a lladmeru.**
- 20. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n trefnu digwyddiad undydd i ddathlu diwylliant ac amrywiaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar integreiddio cymunedol, yn cynnwys gweithwyr mudol.**

Thema 5: Cymorth i sefydliadau a staff sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr mudol a'u teuluoedd

Ymwybyddiaeth Gwasanaethau ar y Rheng Flaen o Hawliau Gweithwyr Mudol

103. Roedd nifer sylweddol o dystion yn pryderu nad oedd gwasanaethau ar y rheng flaen yn ymateb yn briodol i anghenion gweithwyr mudol, ac i anghenion eu teuluoedd.

104. Roedd yn ymddangos nad yw rhai gwasanaethau ar y rheng flaen yn ymwybodol o hawliau pobl fudol, neu eu bod yn ddryslyd yn eu cylch. Gwnaeth CLILC sylw eu bod wedi derbyn tystiolaeth anecdotaidd o Feddygon Teulu'n gwrthod cofrestru gweithwyr mudol a'u teuluoedd er bod ganddynt, mewn gwirionedd, hawl lawn i ofal iechyd sylfaenol yn rhad ac am ddim. Nododd CLILC mai cymhlethdod yr hawliau hyn oedd, yn ôl pob tebyg, yn gyfrifol am hyn. Gwnaeth y sylw ei bod:

“yn anodd iawn, mewn rhai achosion, i wasanaethau cyhoeddus ddeall os ydych, er enghraifft, yn weithiwr mudol sydd wedi bod yma am lai na 12 mis a chithau wedi cofrestru, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ond unwaith y byddwch wedi bod yma am fwy na 12 mis fe fyddwch yn gymwys; beth yw'r gwahaniaeth rhwng hawliau ceisiwr lloches neu ffoadur, ac ati”.

105. Roedd aelodau o'r farn ei bod yn hanfodol cefnogi gwasanaethau ar y rheng flaen i alluogi eu hymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr mudol. Nododd Aelodau y gallai gwasanaethau ar y rheng flaen chwarae rôl allweddol wrth nodi sefyllfaoedd lle mae hawliau gweithwyr mudol, neu eu teuluoedd, wedi'u llesteirio, a rhoi gwybod amdanynt i asiantaeth orfodi briodol. Nododd Aelodau fod rhai gwasanaethau ar y rheng flaen yn atebol i Lywodraeth y DU a bod eraill yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Gwasanaethau ar y Rheng Flaen yn Defnyddio Gwasanaethau Lladmeru

106. Derbyniodd Aelodau gorff sylweddol o dystiolaeth bositif ynglŷn ag asiantaethau ar y rheng flaen yn defnyddio gwasanaethau lladmeru. Er enghraifft, manylodd y ganolfan Cyngor Ar Bopeth ar brotocol oedd wedi'i ddatblygu rhwng canolfan Cyngor Ar Bopeth Caerfyrddin, Canolfan Byd Gwaith leol, a'r Gwasanaeth Pensiwn i sicrhau bod cyfieithydd bob amser ar gael yn ystod oriau gwaith i'r tri gwasanaeth. Yn yr un modd, dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod:

“y Ganolfan Byd Gwaith yn cyfieithu ei thafleni allweddol i Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg, Gwjarati, Pwnjabeg ac Wrddw, a hefyd yn darparu gwasanaeth lladmeru lle bo'n briodol. Mae Cynghorydd Pobl Fudol Economaidd yn gweithio yng Nghaerdydd trwy'r Prosiect Yn Awyddus i Weithio. Yn 2007, cyflwynodd y Ganolfan Byd Gwaith daflen yn yr iaith Bwyleg fel rhan o gynllun peilot. Roedd hon yn ymwneud â'r cymorth chwilio am waith 'helpu'ch hun' y mae'n ei ddarparu i weithwyr mudol sydd eisoes yn y DU, ac mae'r Ganolfan yn bwriadu sicrhau bod hon ar gael i staff yn ei swyddfeydd lleol er mwyn iddynt allu ei rhoi i bobl sy'n galw i mewn”.

107. Fodd bynnag, disgrifiodd tystion eraill sefyllfaoedd lle roedd gwasanaethau ar y rheng flaen wedi gwaethgu rhwystrau ieithyddol. Er enghraifft, gwnaeth y ganolfan Cyngor Ar Bopeth sylw fod swyddfa DWP wedi rhoi rhestr o rifau ffôn i'w ffonio i ymfudwr oedd yn siarad Pwyleg, yn lle trefnu i anfon ffurflenni Credyd Treth a Budd-dal Plant ato, gan waethgu ei broblemau â deall y Saesneg. Gwnaeth gweithwyr gwirfoddol ym Mharc Caia sylw tebyg, sef bod:

“problemau'n parhau o ran grwpiau'n methu â chyrchu gwasanaethau asiantaethau eraill, oherwydd rhwystrau ieithyddol”.

108. Yn yr un modd, gwnaeth AWEMA sylw mewn tystiolaeth ar lafar:

“os ydych chi'n troseddu, gallwch chi gael cymorth ieithyddol, ond os ydych chi'n ufuddhau i'r gyfraith ac yn mynd o gwmpas eich busnes beunyddiol, nid yw'r cymorth hwnnw ar gael ichi”.

109. Nododd Aelodau fod hyn yn awgrymu cynnydd positif yn achos asiantaethau gorfodi'r gyfraith i alluogi defnyddio gwasanaethau cyfieithu manwl gywir, ond ei fod hefyd yn dwyn sylw at yr angen am gynnydd tebyg yn achos gwasanaethau eraill ar y rheng flaen. Roedd Aelodau hefyd o'r farn fod gwasanaethau cyfieithu eisoes ar gael i rai gwasanaethau ar y rheng flaen, ond efallai fod angen hyfforddiant pellach mewn defnyddio'r gwasanaethau hyn, gan nodi tystiolaeth oddi wrth SEWREC bod rhai staff ar y rheng flaen:

“yn gwrthod defnyddio gwasanaethau lladmeru neu nad ydynt yn ymwybodol eu bod ar gael iddynt”.

110. Mynegodd asiantaethau ar y rheng flaen bryderon hefyd ynglŷn â'u darpariaeth o wasanaethau lladmeru. Nododd Cyngor Sir y Fflint fod angen mwy o adnoddau ar gyfer lladmeru a chyfieithu, ac awgrymodd Cyngor Sir Wrecsam y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n egluro dull cenedlaethol o fynd ati i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru anawsterau penodol hefyd wrth gyrchu gwasanaethau cyfieithu a oedd yn ddigon manwl gywir i allu ymdopi â therminoleg glinigol.

111. Awgrymodd lleiafrif o dystion y gellid o bosibl dod o hyd i atebion i ddarpariaeth gwasanaethau cyfieithu trwy fudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda chymunedau mudol, neu drwy'r cymunedau mudol eu hunain. Awgrymodd Mr Anthony Packer, Is-gennad Anrhydeddus Lithiwanian yng Nghymru, y gellid cael gwasanaethau cyfieithu a lladmeru trwy fuddsoddi mewn cymunedau mudol i'w helpu i drefnu gwasanaethau lladmeru eu hunain. Yn yr un modd, awgrymodd AWEMA ei bod yn bosibl bod grwpiau gwirfoddol yn meddu ar brofiad ac arbenigedd gwerthfawr, a bod angen eu cefnogi a'u hadnoddu er mwyn i awdurdodau allu manteisio ar eu sgiliau. Nododd Aelodau y byddai'r grwpiau gwirfoddol a fyddai ar gael fel adnodd arbenigedd a gwybodaeth yn naturiol yn amrywio ledled Cymru, er y gallai grwpiau o'r fath roi cymorth gwerthfawr o ran gwasanaethau lladmeru proffesiynol.

Argymhellodd y Pwyllgor:

- 21. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau datganoledig ar y rheng flaen, er mwyn galluogi mwy o ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr mudol. Dylai'r hyfforddiant hwn ddarparu cyngor ymarferol ar nodi arferion anghyfreithlon a chysylltu ag asiantaeth orfodi briodol. Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd ddarparu canllawiau ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth ddiwylliannol a chydaddoldeb sy'n gysylltiedig â rhyngweithio â gweithwyr mudol a'u teuluoedd.**
- 22. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu hyfforddiant ar gyfer staff ar y rheng flaen, yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau lladmeru ac argaeledd y gwasanaethau hyn, gan gynnwys adnoddau lleol a gwasanaethau proffesiynol.**
- 23. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU i hybu darparu hyfforddiant tebyg i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Argymhellion 21 a 22 i wasanaethau ar y rheng flaen sy'n atebol i Lywodraeth y DU.**
- 24. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi staff ar y rheng flaen sy'n atebol i awdurdodau lleol i gael hyfforddiant tebyg i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Argymhellion 21 a 22.**

Pwysau ar Wasanaethau ar y Rheng Flaen

112. Gwnaeth nifer o dystion sylw bod diffyg gwybodaeth gweithwyr mudol am eu hawliau a'u cyfrifoldebau'n rhoi mwy fyth o bwysau ar wasanaethau ar y rheng flaen i foddhau gweithwyr mudol a'u teuluoedd. Nododd Cyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe fod yna lawer o weithwyr mudol nad oeddent wedi cofrestru â Meddygon Teulu, a oedd yn golygu mwy o bwysau ar Wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys sy'n ei trin. Nododd Aelodau hefyd dystiolaeth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fod gweithwyr mudol yn parhau i'w chael yn anodd cofrestru â Meddygon Teulu, hyd yn oed pan oeddent yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb hwn. Roedd Aelodau o blaid gwaith Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe i ddatblygu taflenni practisiau generig, mewn nifer o ieithoedd, i roi gwybodaeth am gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd Abertawe.

113. Yn yr un modd, nododd Cyngor Sir y Fflint fod peidio â darparu gwybodaeth gefndir i ysgolion yn golygu mwy o bwysau arnynt i foddhau plant gweithwyr mudol. Nododd Aelodau fod gwahaniaethau mewn systemau Addysg rhwng gwahanol wledydd, gydag oedrannau cychwyn ysgol gwahanol i blant yn y DU, hefyd yn gwaethygu'r sefyllfa hon. Nododd Aelodau hefyd y byddai diffyg gwybodaeth gefndir yn gwaethygu anawsterau yn achos gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi anhwylderau iaith a lleferydd neu anawsterau dysgu mewn plant â sgiliau Saesneg gwael. Roedd Aelodau o'r farn mai'r modd gorau o fynd i'r afael â'r pwysau hyn ar wasanaethau ar y rheng flaen fyddai cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr mudol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau.

Ystadegau Manwl Gywir

114. Un thema a gododd drosodd a thro yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan sefydliadau'r sector cyhoeddus oedd bod angen ystadegau manwl gywir i gynllunio a darparu gwasanaethau. Nododd sawl sefydliad y byddai o fantais derbyn rhagolygon ynglŷn â mewnlifiadau gweithwyr mudol, er mwyn cynllunio darpariaeth gwasanaethau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, fel y nododd CLILC, nid oes gan awdurdodau ystadegau eglur ar nifer y gweithwyr mudol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd, heb sôn am ragolygon a rhagfynegiadau ynglŷn â'r rheiny y disgwylir y byddant yn cyrraedd. Nododd Aelodau nad oedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd yn gallu cyflenwi gwybodaeth fanwl gywir i awdurdodau lleol. Nododd tystion ei bod yn debygol y bydd y problemau hyn yn cynyddu yn hytrach na'n lleihau wrth i wledydd newydd ymuno â'r UE, ac wrth i gyfleoedd pellach i fudo i'r DU ac oddi yma ddod i'r amlwg. Nododd Aelodau hefyd y gallai cynnydd sylweddol mewn poblogaethau cymunedau arwain at gyfyngiadau o ran ariannu asiantaethau'r sector cyhoeddus, a allai fod yn waeth fyth o ystyried nad oes modd i awdurdodau lleol gael cronfeydd ychwanegol yng nghanol y flwyddyn ariannol.

115. Nododd tystion gyfyngiadau pob un o'r tri phrif ddull ar gyfer cyfrif gweithwyr mudol a'u teuluoedd: yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, ystadegau Yswiriant Gwladol a'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr, a allai arwain at oramcangyfrif neu danamcangyfrif nifer y gweithwyr mudol sy'n gweithio yng Nghymru ar unrhyw un adeg. Sylw Mr Trepczynski, Gweinidog Gynghorydd Llysgenhadaeth Gwlad Pwyl yn Llundain, ar y cynllun cofrestru gweithwyr oedd:

"nid oes unrhyw rwymedigaeth i ddatgofrestru wrth adael y wlad ac, oherwydd cost uchel cofrestru, mae llawer nad ydyn nhw'n trafferthu i gofrestru".

116. Roedd Aelodau o'r farn fod gwaith roedd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru wedi'i gychwyn, sef dadansoddiad o wybodaeth a dderbynnir o gofrestriadau Meddygon Teulu, yn cynnig allwedd gwerthfawr i'r her o gasglu gwybodaeth ystadegol fanwl gywir. Nododd Aelodau hefyd sylwadau defnyddiol mewn tystiolaeth lafar gan Gyrfa Cymru eu bod:

"yn darparu'r wybodaeth mae'r Cynulliad yn ein gorchymyn i'w darparu...pe baem am gasglu'r data hynny [p'un a yw rhywun yn weithiwr mudol], mae'n bosibl casglu gwybodaeth sydd y tu hwnt i'r data allweddol hynny am darddiad ethnig".

117. Roedd Aelodau o'r farn fod yr asiantaethau amrywiol ar y rheng flaen sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr mudol a'u teuluoedd yn offer posibl ar gyfer casglu gwybodaeth ystadegol fanwl gywir ynghyd am boblogaethau gweithwyr mudol, pe gellid eu cydlynu'n briodol. Roedd Aelodau hefyd o'r farn fod angen mwy o hyblygrwydd ar wasanaethau ar y rheng flaen yn eu ffrydiau ariannu i ymdopi â mewnlifiadau sydyn o weithwyr mudol.

Argymhellodd y Pwyllgor:

25. Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac asiantaethau eraill, yn mapio'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd, i benderfynu pa wybodaeth bellach sydd angen ei chasglu i gadarnhau nifer y gweithwyr mudol, a'u teuluoedd, yng Nghymru. Yna gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i asiantaethau ar y rheng flaen gasglu gwybodaeth y dynodir ei bod yn ofynnol, a chyflwyno achos i Lywodraeth y DU dros hwythau'n gofyn am wybodaeth debyg. Byddai hyn yn galluogi casglu data priodol i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio darpariaeth eu gwasanaethau yn y dyfodol.

Argymhelliad 1

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu gwefan amlieithog a ddiweddarir yn rheolaidd â dolenni i gyngor sydd ar gael trwy wefannau cyrff perthnasol y sector cyhoeddus, cyrff rheoleiddio a chyrrff y llywodraeth. Byddai hon hefyd yn darparu dolen i ffynonellau gwybodaeth ddibynadwy a ddarperir mewn ieithoedd mae gweithwyr mudol yn eu siarad. Pwrpas y wefan hon fyddai cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau gwybodaeth gyffredinol a gwybodaeth â ffocws lleol yn hytrach na darparu'r wybodaeth yn uniongyrchol, gan weithredu fel 'both wybodaeth'.

Argymhelliad 2

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu'r 'both wybodaeth' hon trwy: lywodraethau a swyddfeydd is-genhadon gwledydd tarddiad gweithwyr mudol yng Nghymru; pwyntiau mynediad i Gymru; sefydliadau'r sector cyhoeddus; cymdeithasau a busnesau gweithwyr mudol; a phecyn 'Croeso i Gymru' wedi'i ddiweddarau.

Argymhelliad 3

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu eu pecynnau croeso eu hunain, y gellid creu dolen rhyngddynt a gwefan amlieithog Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r pecynnau croeso hyn gynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a gwybodaeth berthnasol arall fel bancio.

Argymhelliad 4

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu dealltwriaeth o wybodaeth sy'n bodoli am gymwysterau cyfatebol, ac yn hybu mynediad ati, yn enwedig ymhlith gwasanaethau cynghori, grwpiau gwirfoddol, cyflogwyr a sefydliadau perthnasol eraill.

Argymhelliad 5

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sefydlu fforwm, gan gynnwys Sefydliadau Addysg Uwch, Colegau Addysg Bellach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a rhanddeiliaid busnes sydd â diddordeb, i benderfynu ar ffyrdd y gall gweithwyr mudol ddefnyddio'u cymwysterau'n fwy effeithiol.

Argymhelliad 6

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i drafod ag UK NARIC, â'r bwriad o alluogi cyflogwyr llai i ddefnyddio cronfa ddata UK NARIC am bris gostyngol, o bosibl trwy system ar y cyd.

Argymhelliad 7

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaeth sy'n nodi graddau'r angen am hyfforddiant yr iaith Saesneg ymhlith gweithwyr mudol, ac yn llunio cynllun gweithredu sy'n diwallu'r anghenion hyn. Dylai hwn fanylu ar amserlen ar gyfer cyflenwi hyfforddiant yr iaith Saesneg, a chynllun gweithredu cysylltiedig.

Argymhelliad 8

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi sefydliadau i wneud yn fawr o sgiliau ieithyddol presennol eu staff ar y rheng flaen, i wella'r cyfathrebu â gweithwyr mudol a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys:

- a) darparu cyfarwyddyd ar gynnal archwiliadau sgiliau ieithyddol i alluogi sefydliadau i ddarganfod pa adnoddau iaith allai fod yn bodoli ymhlith eu staff;
- a,
- b) darparu cyfarwyddyd ar ddatblygu staff sydd â sgiliau ieithyddol penodol.

Argymhelliad 9

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymchwilio i ffurfiau amgen, hyblyg ar hyfforddiant iaith, gan gynnwys defnyddio technoleg.

Argymhelliad 10

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio cytuno â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a'r Undebau Llafur ar God Ymddygiad gwirfoddol yn ymwneud â recriwtio a chyflogi llafur mudol, ac annog cyflogwyr i'w lofnodi. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynd ati'n bositif i hybu llofnodwyr i'r cod hwn.

Argymhelliad 11

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU a sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol i ymestyn cylch gorchwyl yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri.

Argymhelliad 12

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU, â'r bwriad o sefydlu 'Comisiwn Cyflogaeth Deg' i gwmpasu'r pedair asiantaeth orfodi sy'n bodoli, gyda chylch gorchwyl estynedig i gynnwys yr holl hawliau cyflogaeth sylfaenol. Byddai gan y Comisiwn hwn y pŵer, lle bo angen, i wneud hawliad i Dribiwnlys Cyflogaeth ar ran gweithiwr, a gorfodi dyfarniad.

Argymhelliad 13

Bod Fforwm Pobl Fudol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag amodau byw gwael i weithwyr mudol, gan ymgysylltu â'r Gweinidog dros Dai.

Argymhelliad 14

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU ynglŷn ag adolygu system fudd-daliadau'r DU, ar sail egwyddor darparu mynediad tebyg at gymorth budd-daliadau i weithwyr mudol o Aelod-wladwriaethau A8 ac A2 yr UE â gweithwyr eraill o aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Argymhelliad 15

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'u cymheiriaid mewn gwledydd eraill.

Argymhelliad 16

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu cyfraniadau a chyflawniadau positif gweithwyr mudol yng Nghymru i gymunedau lleol yng Nghymru.

Argymhelliad 17

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi sefydliadau sy'n gweithio i recriwtio gwirfoddolwyr o blith cymunedau mudol i weithio mewn lleoliadau cymunedol.

Argymhelliad 18

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hwyluso rhwydweithio rhwng sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, â'r nod o rannu arfer da.

Argymhelliad 19

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu 'both wybodaeth' ar y we ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol. Byddai'r wefan hon yn cyfeirio defnyddwyr at fanylion cyswllt sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, gan eu galluogi i lunio cysylltiadau a thrafod arfer da. Byddai'r wefan hefyd yn cyfeirio defnyddwyr at asiantaethau gorfodi rheoleiddiol a ffynonellau allweddol eraill lle ceir gwybodaeth ddibynadwy. Gallai'r porth hwn hefyd ddarparu dolenni i gyngor ar gyrchu gwasanaethau cyfieithu a lladmeru.

Argymhelliad 20

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n trefnu digwyddiad undydd i ddathlu diwylliant ac amrywiaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar integreiddio cymunedol, yn cynnwys gweithwyr mudol.

Argymhelliad 21

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau datganoledig ar y rheng flaen, er mwyn galluogi mwy o ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr mudol. Dylai'r hyfforddiant hwn ddarparu cyngor ymarferol ar nodi arferion anghyfreithlon, a chysylltu ag asiantaeth orfodi briodol. Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd ddarparu canllawiau ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth ddiwylliannol a chydarddoldeb sy'n gysylltiedig â rhyngweithio â gweithwyr mudol a'u teuluoedd.

Argymhelliad 22

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu hyfforddiant ar gyfer staff ar y rheng flaen, yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau lladmeru ac argaeledd y gwasanaethau hyn, gan gynnwys adnoddau lleol a gwasanaethau proffesiynol.

Argymhelliad 23

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU i hybu darparu hyfforddiant tebyg i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Argymhellion 21 a 22 i wasanaethau ar y rheng flaen sy'n atebol i Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 24

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi staff ar y rheng flaen sy'n atebol i awdurdodau lleol i gael hyfforddiant tebyg i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Argymhellion 21 a 22.

Argymhelliad 25

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac asiantaethau eraill, yn mapio'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd, i benderfynu pa wybodaeth bellach sydd angen ei chasglu i gadarnhau nifer y gweithwyr mudol, a'u teuluoedd, yng Nghymru. Yna gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i asiantaethau ar y rheng flaen gasglu gwybodaeth y dynodir ei bod yn ofynnol, a chyflwyno achos i Lywodraeth y DU dros hwythau'n gofyn am wybodaeth debyg. Byddai hyn yn galluogi casglu data priodol i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio darpariaeth eu gwasanaethau yn y dyfodol.

Cylch Gorchwyl

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2007, cytunodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i gynnal ymchwiliad craffu fydd yn canolbwyntio ar brofiadau gweithwyr mudol yng Nghymru. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl yn nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Hydref 2007, sef:

- craffu ar Lywodraeth y Cynulliad a'r gwaith mae'n ei wneud i gefnogi gweithwyr mudol a'u teuluoedd, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol sydd â chyfran uchel o bobl fudol yn rhan o'u poblogaeth; a
- gwneud argymhellion ar y gweithredu sydd ei angen i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r bobl sy'n byw yn y cymunedau y maent hwy'n byw ac yn gweithio ynddynt.

Wrth gynnal yr ymchwiliad, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n:

- edrych ar brofiadau gweithwyr mudol a'u teuluoedd yng Nghymru gan edrych yn benodol ar: amodau byw a gweithio; mynediad at wasanaethau cyhoeddus; rhwydweithio cymdeithasol
- adnabod effaith mudo economaidd ar rai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ac ar gymunedau lleol
- ymchwilio i effaith y fframwaith rheoli presennol sy'n llywodraethu amodau byw a gweithio gweithwyr mudol yng Nghymru
- tynnu sylw at esiamplau o arferion da gyda golwg ar gysylltiadau gyda chymunedau; polisiâu cyflogaeth a darparu gwasanaethau.

Derbyniwyd tystiolaeth lafar fel a ganlyn:**EOC(3)-02-08 7 Chwefror 2008**

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Yr Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol

EOC(3)-03-08 28 Chwefror 2008

- Cyngor Sir y Fflint
- Heddlu Gogledd Cymru
- Esgobaeth Gatholig Wrecsam
- Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

EOC(3)-04-08 13 Mawrth 2008

- Cymdeithas Gydfuddiannol Pwyliaid Cymru
- Cyngres Undebau Llafur Cymru

EOC(3)-07-08 15 Mai 2008

- Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri
- Cymuned Lithwanaidd Cymru
- Llysghendaeth Gwlad Pwyl
- Cynrychiolaeth y Weriniaeth Slofaciaidd yng Nghymru

EOC(3)-08-08 4 Mehefin 2008

- Gyrfa Cymru
- Cyngor Ar Bopeth Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru

EOC(3)-09-08 18 Mehefin 2008

- Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)
- Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd (VALREC)
- Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd

Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth:

- Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)
- Rhwydwaith Amgylcheddol Pobl Dduon (BEN)
- Siop Cyngor ar Fudd-daliadau
- Cyngor Sir Caerffili
- Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili
- Cyngor Ar Bopeth Cymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
- Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Cyngor Sir y Fflint
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
- Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr
- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru
- NatWest
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
- Oxfam Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Shelter Cymru
- Coleg Brenhinol y Nyrsys
- Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru (SEWREC)
- Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe
- Prifysgol Abertawe
- Yr Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (USDAW)
- Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
- Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd (VALREC)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
- Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â Phartneriaeth Parc Caia, Wrecsam.